



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

43/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/06/2021

Safon Ansawdd Tai Cymru: Gwerthusiad Cyfansymiol

Safon Ansawdd Tai Cymru: Gwerthusiad Cyfansymiol

Awduron: Three Dragons, Cyngor Da a Phrifysgol Ulster -
Sefydliad Ymchwil yr Amgylchedd Adeiledig (BERI)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Three Dragons, Cyngor Da a Phrifysgol Ulster -
Sefydliad Ymchwil yr Amgylchedd Adeiledig (2021) *Safon Ansawdd Tai Cymru:
Gwerthusiad Cyfansymiol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif
43/2021

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-crynodol-o-safon-ansawdd-tai-cymru>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Katy Addison

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 256292

E-bost: YmchwilDyfodolCynaliadwy@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Methodoleg	8
3.	Cefndir a chyd-destun safonau ansawdd tai	14
4.	Nodweddion a gweithredu cynnar	17
5.	Cofnodi data, rheolaeth a chydymffurfio	33
6.	Deilliannau ac effaith	50
7.	Datgarboneiddio	56
8.	Casgliadau ac argymhellion	66
	Cyfeiriadau	75
	Atodiad A - Crynodeb o'r safonau o dai cymdeithasol ar rent mewn awdurdodaethau cymharol	80

Geirfa

Byrfodd / Allweddair	Diffiniad
Adolygiad Essex	Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy i'r Dirprwy Weinidog Tai Mehefin 2008.
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Wedi ei greu yn 2005, yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
Arian gwaddol	Yr arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i 10 cymdeithas dai i helpu i wella eu tai. Sefydlwyd y cymdeithasau tai hyn pan drosglwyddodd awdurdodau lleol eu stoc tai.
BRE	Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladau yn ganolfan ar gyfer gwyddor adeiladau sy'n eiddo i sefydliad elusennol yr Ymddiriedolaeth BRE. Mae'n cynnig ymchwil, cyngor, hyfforddiant, profi, ardystio a safonau.
CCC	Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig
CHC	Cartrefi Cymunedol Cymru - y corff sy'n cynrychioli cymdeithasau tai yng Nghymru.
CIH Cymru	Sefydliad Siartredig Tai yng Nghymru – y corff proffesiynol i bobl sy'n gweithio ym maes tai yng Nghymru.
Corfforaeth Tai Cymru	Y corff rheoleiddiol ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru hyd 1988.
CD	Cymdeithas dai - gweler hefyd LCC ac LSVT.
Cwango	Sefydliad Lled-anllywodraethol – enghraifft o hyn oedd Tai Cymru, oedd yn rheoleiddio ac ariannu cymdeithasau tai yng Nghymru rhwng 1988 ac 1998.
DHS	'Decent Homes Standard' - y safon y mae tai cymdeithasol ar rent yn Lloegr yn gorfod cydymffurfio ag o.
DQR	Gofynion Ansawdd Datblygu – dyma'r safonau swyddogaethol gofynnol ar gyfer cartrefi anghenion cyffredinol newydd ac wedi eu haddasu a adeiladir gan ddarparwyr tai cymdeithasol.
EPC	Tystysgrif Perfformiad Ynni – dull o fesur pa mor effeithlon o ran ynni yw adeilad ac mae'n rhoi dyfarniad o A (effeithlon iawn) i G (aneffeithlon).
Groundwork Wales	Mae Groundwork yn helpu cymunedau ar draws Cymru i greu ardaloedd gwell, cynyddu sgiliau a rhagolygon gwaith a byw a gweithio mewn modd mwy gwyrdd.
Gwerth Cymru	Gwerth Cymru yw adain gaffael Llywodraeth Cymru.
HouseMark Cymru	Mae HouseMark yn sefydliad ag aelodau, sy'n cynnig atebion a chyfleoedd i yrru gwelliannau o ran perfformiad.
HRAS	Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai
IHP	Rhaglen ariannu gan Lywodraeth Cymru yw'r Rhaglen Tai Arloesol sy'n ceisio ysgogi dylunio a chyflawni cartrefi newydd, o ansawdd uchel, fforddiadwy i gynyddu cyflenwad, cyflymu'r cyflawni, treialu modelau tai a dulliau cyflawni newydd a phrofi y gellir ailadrodd modelau tai arloesol.

LCC	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig – landlord cymdeithasol a gofrestrwyd ac sy'n cael ei reoleiddio gan Weinidogion Cymru dan Ran 1 Deddf Tai 1996.
LSVT	Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr – canlyniad pleidlais gadarnhaol gan denantiaid awdurdod lleol i drosglwyddo perchenogaeth cartrefi'r awdurdod lleol i gorff landlord newydd.
Methiant Derbyniol	Pan na fydd cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar gyfer elfen unigol yn bosibl mewn rhai sefyllfaoedd penodol – a all gynnwys cost neu amseru'r gwaith, preswylwyr yn dewis peidio â chael gwaith wedi ei wneud neu pan fydd cyfyngiadau ffisegol ar y gwaith. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall annedd gael ei ddosbarthu fel 'methiant derbyniol.'
MRA	Lwfans Atgyweiriadau Mawr - Cyllid gan Lywodraeth Cymru i'r 11 awdurdod lleol sy'n rheoli a chynnal a chadw eu cartrefi ar rent.
ORP	Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio – rhaglen Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn nhai cymdeithasol presennol Cymru i gyrraedd targedau gostwng carbon.
PAC	Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 i ystyried materion sy'n ymwneud â chynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y mae adnoddau yn cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.
Pandemig	Y pandemig Covid-19 byd-eang
PHW	Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o'r 11 sefydliad sy'n rhan o GIG Cymru. Dyma'r asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau diffyg cyfartaledd iechyd i bobl Cymru.
PoC	Canran y cydymffurfiaid â SATC
RMI	Trwsio, cynnal a chadw a gwella
SAP	Gweithdrefn Asesu Safonol - Mae cyfrifiad cyfradd SAP yn dynodi sgôr o 1 i 100+ am y gost ynni flynyddol ar sail elfennau'r strwythur, gwresogi a'r system ddŵr poeth, goleuadau mewnol a thechnolegau adnewyddadwy a ddefnyddir yn y cartref. Uchaf yn y byd yw'r sgôr isaf yn y byd yw'r costau rhedeg, gyda 100 yn cynrychioli dim costau ynni.
SATC	Safon Ansawdd Tai Cymru: y safon y mae'n rhaid i dai cymdeithasol ar rent yng Nghymru gydymffurfio ag o rhwng 2002 a 2021.
SATC 2.0	Y fersiwn ddiwygiedig a ddaw o SATC.
Tai Cymru	Y corff rheoleidiol ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru rhwng 1988 a 1998.
Tai Pawb	Mae Tai Pawb yn hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru
TPAS Cymru	Yn gweithio gyda Landlordiaid a Thenantiaid yng Nghymru i helpu i siapia gwasanaethau tai. Mae'n galluogi rhannu a hyrwyddo arfer da o ran cyfranogiad tenantiaid.
Trosglwyddo Stoc	Trosglwyddo perchenogaeth tai awdurdod lleol i sefydliadau tai a grëwyd o'r newydd.
VfM	Gwerth am Arian

1. Cyflwyniad

Cyd-destun a diben yr ymchwil

- 1.1 Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) gan Lywodraeth Cymru yn 2002, i wella safon ffisegol a chyflwr tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae SATC yn berthnasol i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sydd â thai cymdeithasol ar rent. Nid yw'r safon yn berthnasol i dai eraill a ddatblygir gan landlordiaid cymdeithasol neu i'r sector preifat.
- 1.2 Er mwyn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru, rhaid i dai fod:
1. Mewn cyflwr da;
 2. Yn ddiogel a saff;
 3. Wedi'u cynhesu'n ddigonol, yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac wedi'u hinswleiddio'n dda;
 4. Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi cyfoes;
 5. Yn cael eu rheoli'n dda (ar gyfer tai ar rent);
 6. Wedi'u lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel; a
 7. Pan fydd hynny'n bosibl, yn addas ar gyfer anghenion penodol y rhai sy'n byw yno, fel rhai ag anableddau.
- 1.3 Mae SATC yn mesur 42 o elfennau unigol yn y saith categori hyn¹. Cydymffurfiad llawn yw pan fydd y SATC yn cael ei gyflawni ar gyfer y 42 elfen unigol i gyd. Gall sefyllfaoedd godi pan na fydd yn bosibl cyrraedd y safon ar gyfer elfen unigol. Gall sefyllfaoedd o'r fath gynnwys cost neu amseru'r gwaith, preswylwyr yn dewis peidio â chael gwaith wedi ei wneud neu pan fydd cyfyngiadau ffisegol ar y gwaith; yn y sefyllfaoedd hyn, gall annedd gael ei alw yn 'fethiant derbyniol'.
- 1.4 Dangosodd y data ystadegol diweddaraf sydd ar gael, ar 31 Mawrth 2019, bod 93% o'r holl anheddau cymdeithasol yn cydymffurfio â SATC (gan gynnwys 'methiannau derbyniol')². Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae data yn cael ei gasglu i ddangos sefyllfa pob landlord cymdeithasol ar ddyddiad cau'r rhaglen, sef 31 Rhagfyr 2020. Mae'r dyddiad cau yn hwyrach nag a ragwelwyd i gychwyn (fel y disgrifir ym mhennod 4). Oherwydd effaith y Pandemig, mae nifer fechan o

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, The WHQS: Revised Guidance for Social Landlords on Interpretation and Achievement of the WHQS

² Llywodraeth Cymru, 2019, Datganiad Ystadegol Cyntaf: Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar 31 Mawrth 2019

landlordiaid cymdeithasol wedi cael estyniad o flwyddyn tu hwnt i'r dyddiad cau (hyd 31 Rhagfyr 2021).

- 1.5 Er nad yw cydymffurfio â SATC erbyn y dyddiad cau wedi ei sefydlu'n llawn, yr hyn y gellir ei ddweud yw bod SATC wedi cyflawni gwelliant sylweddol yn ansawdd stoc cymdeithasol ar rent yn y cyfnod ers iddo gael ei sefydlu gyntaf.
- 1.6 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y fersiwn nesaf o'r SATC (SATC 2.0); beth ddylai ei gynnwys a sut y dylai gael ei fonitro. Dyma'r cyd-destun ar gyfer y Gwerthusiad Cyfansymiol sy'n ymdrin â'r tri amcan allweddol canlynol:
- Asesu'r graddau y mae'r SATC wedi ei gyrraedd;
 - Ystyried deilliannau cyrraedd y safon (gan gynnwys rhai cymdeithasol, economaidd a llesiant, yn ogystal â gwelliant ffisegol i'r stoc dai);
 - Defnyddio canfyddiadau'r Gwerthusiad Cyfansymiol i gynhyrchu argymhellion ar gyfer datblygu'r safon diwygiedig.
- 1.7 Elfen bwysig o SATC 2.0 fydd sicrhau cefnogaeth i amcanion Llywodraeth Cymru o ran datgarboneiddio. Wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) mabwysiadodd Llywodraeth Cymru darged o sero net o ran allyriadau erbyn 2050³, gan droi'r targed yn ddeddf ym Mawrth 2021. Argymhellodd Chweched Gyllideb Garbon y Pwyllgor Newid Hinsawdd, wrth nodi'r llwybr tuag at Sero Net, y dylid gweld gostyngiad o 63% mewn carbon erbyn 2030 a gostyngiad o 89% erbyn 2040.⁴ Mabwysiadwyd y rhain a'u cymeradwyo gan Senedd Cymru ym Mawrth 2021. Yn dilyn hynny cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd yn gosod targed newid hinsawdd yn y gyfraith sy'n torri allyriadau o 78% erbyn 2035, mewn cymhariaeth â lefelau 1990.

³ Offeryn Statudol Cymru, i Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rheoliadau (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 yn effeithiol o 12 Mawrth 2021

⁴ Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020, Y Chweched Gyllideb Garbon

Cynnwys yr adroddiad

- 1.8 Mae Pennod Dau yr adroddiad yn nodi'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil. Cynhaliwyd adolygiad llenyddol manwl, dadansoddiad o'r data yn olrhain cydymffurfiaid â SATC ers ei gyflwyno a gweithdy gyda grŵp o landlordiaid i archwilio'r problemau sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwil.
- 1.9 Ar ôl hynny mae'r adroddiad yn thematig ac wedi ei strwythuro fel a ganlyn:
- Pennod 3 - Cefndir a chyd-destun safonau ansawdd tai;
 - Pennod 4 - Nodweddion a gweithredu cynnar;
 - Pennod 5 - Cofnodi data, rheolaeth a chydymffurfio;
 - Pennod 6 - Deilliannau ac effaith;
 - Pennod 7 – Datgarboneiddio;
 - Pennod 8 - Casgliadau ac argymhellion

Negeseuon allweddol o'r gwerthusiad

- 1.10 Daw'r gwerthusiad i'r casgliad bod SATC wedi bod yn effeithiol wrth gyflawni ei amcan allweddol o godi safonau tai cymdeithasol ar rent, er bod hynny'n fwy gwir ar gyfer rhai o'r 42 elfen o'r SATC nac eraill (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni).
- 1.11 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dynodi bod gan SATC fanteision i denantiaid ac y dylai barhau i'r dyfodol. Dylai SATC 2.0 fod ar ffurf y SATC presennol i raddau helaeth ond gyda rhai elfennau newydd a gwelliannau o ran y dull o gasglu data a rhoi adroddiadau.
- 1.12 Ond, mae rhai diwygiadau pwysig i'r safonau yn cael eu cynnig sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwil a newidiadau allanol. Y rhai allweddol o'r rhain yw:
- Bod dull bob yn gam o gyflwyno camau i gyrraedd y targedau a ddiffiniwyd yn genedlaethol ar gyfer datgarboneiddio ac sydd, yn bwysig, yn sicrhau na fydd tenantiaid mewn gwaeth sefyllfa o ganlyniad i waith datgarboneiddio yn eu cartrefi ac sy'n anelu i wella lefelau moethusrwydd ac sy'n lleihau tlodi tanwydd ymhellach;
 - Argymhelliad bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda landlordiaid a sefydliadau tenantiaid i ddyfeisio safon sy'n sicrhau na fydd tenantiaid sy'n symud i mewn yn wynebu'r baich o ddod o hyd i adnoddau i brynu gorchuddion llawr wrth iddynt symud i eiddo newydd;

- Llywodraeth Cymru i geisio cyngor arbenigol am y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu band eang i denantiaid; ac y dylai weithio gyda'r landlordiaid a sefydliadau tenantiaid i ddynodi safon newydd o ran darparu ar gyfer SATC 2.0.

2. Methodoleg

Cyflwyniad

- 2.1 Dull methodolegol cymysg sy'n sail i'r Gwerthusiad Cyfansymiol hwn o Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn yr un modd â phob prosiect ymchwil a gomisiynir o'r fath, mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu'r adnoddau, yr amserlen a'r data sydd ar gael. Mae'n cyfuno adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth polisi perthnasol a dadansoddiad o ffynonellau data eilaidd – gyda pheth dealltwriaeth ansoddol ychwanegol yn deillio o drafodaethau gyda staff allweddol Llywodraeth Cymru a gweithdy i landlordiaid cymdeithasol.
- 2.2 Mae'r fframwaith methodolegol yn ymdrin â'r tri amcan allweddol ar gyfer yr ymchwil a nodir yn y fanyleb, gyda dull sy'n ystyried y cyfarwyddyd yn llyfrau Magneta ac Aqua Trysorlys EM (2020 a 2012 yn eu tro). Mae'r amcanion hyn fel a ganlyn:
- Asesu'r graddau y mae'r SATC wedi ei gyrraedd;
 - Ystyried deilliannau cyrraedd y safon (gan gynnwys rhai cymdeithasol, economaidd a llesiant, yn ogystal â gwelliant ffisegol i'r stoc dai);
 - Defnyddio canfyddiadau'r Gwerthusiad Cyfansymiol i gynhyrchu argymhellion ar gyfer datblygu'r safon ddiwygiedig.
- 2.3 Mae cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddylunio gwerthusiadau, y Llyfr Magneta, yn nodi, *"There are no set criteria for defining a good evaluation; it will be determined by many factors relating to the policy, the use the evaluation evidence will be put to, and the design and execution of the evaluation itself."* Mae hefyd yn amlygu, *"A good evaluation will be one that is fit-for-purpose: it is proportionate in scale and reflects the needs of decision-makers and those scrutinising the policy from the outside."*
- 2.4 Bu'r cyngor defnyddiol hwn yn help i'r tîm ymchwil ddynodi chwe phrif gam y prosiect, yn ogystal â chyfnod terfynol i roi'r adroddiad. Nodir y camau mewn diagram isod, gyda disgrifiad mwy manwl o bob un yn dilyn. Mae penodau'r adroddiad yn disgrifio'r canfyddiadau o wahanol gamau'r ymchwil ond nid ydynt yn dilyn trefn prif gamau'r prosiect fel y nodir isod.

Ffigwr 2.1 Prif gamau'r prosiect



Cam 1: Adolygiad llenyddiaeth cyflym – cyfarfod ac adroddiad cychwynnol

2.5 Ychwanegodd y tîm ymchwil at y rhestr o ddogfennau i'w hadolygu a ddynodwyd ar ddechrau'r prosiect trwy chwilio ar-lein ar wefannau'r Llywodraeth, a arweiniwyd gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion allweddol. Datgelodd hyn amrywiaeth o ddogfennau allweddol (tua 40) yr oedd angen eu hadolygu. Dogfennau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn) a Llywodraeth Cymru oedd y rhain yn bennaf a roddodd wybodaeth a chyfarwyddyd i landlordiaid cymdeithasol am SATC yn ogystal ag ystadegau allweddol a roddodd gofnod cynhwysfawr o'r cynnydd tuag at gyrraedd y safon.

- 2.6 Rhoddodd hyn wybodaeth sylfaenol i'r tîm ymchwil a hwylusodd ddeialog adeiladol gyda thîm Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y prosiect. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar faterion yn ymwneud â'r angen am asesiad mwy ffurfiol o'r Safon ei hun, y cynnydd tuag at ei gyflawni a'r uchelgais i addasu ac ehangu cwrdd y safon yng ngoleuni'r agenda amgylcheddol sy'n gynyddol bwysig – datgarboneiddio yn benodol.

Cam 2: Adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr

- 2.7 Yr adolygiad llenyddiaeth yw cam cyntaf y Gwerthusiad Cyfansymiol o Safon Ansawdd Tai Cymru ac mae'n tynnu'n helaeth ar ddogfennau a gyhoeddwyd ar-lein, wedi eu hategu gan nifer o ddogfennau ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n defnyddio dull dadansoddi hanesyddol clasurol i roi trosolwg gynhwysfawr o osod, rheoli a monitro'r safonau ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru – safonau sydd wedi bod yn berthnasol i'r holl anheddau oedd yn eiddo ac yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) (cymdeithasau tai a landlordiaid Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr) yng Nghymru ers 2002. Yn fwy penodol, mae'n archwilio SATC o ran ei nodweddion, ei weithrediad, ei effaith a'r gwersi a ddysgwyd. Roedd yr adroddiadau allweddol oedd yn sail i'r adran hon yn cynnwys adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru (*Revised Guidance for Social Landlords on Interpretation and Achievement of the WHQS, 2008*), adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (2012) a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoddus (2012) am gynnydd wrth gyrraedd SATC, ac un gan yr ymgynghorwyr annibynnol, Altair (*Safon Ansawdd Tai Cymru: Gwirio'r cynnydd tuag at dderbyn y Safon, 2014*). Cafwyd tystiolaeth ansoddol fwy diweddar hefyd gan adroddiad am adborth o weithdai landlordiaid a gynhaliwyd yn 2020 gan Lywodraeth Cymru.
- 2.8 Nodir y llenyddiaeth y cyfeirir atynt yn y Gwerthusiad Cyfansymiol yn yr Adran Gyfeiriadau ar ddiwedd yr adroddiad.

Cam 3: Cynnydd ar gyflawni SATC - dadansoddiad data

- 2.9 Roedd y cam hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata cydymffurfio o wefan Ystadegau Cymru ar 1 Chwefror 2021. Arweiniwyd y gwaith o roi cyd-destun a dehongli'r data gan amrywiaeth o adroddiadau, gan gynnwys y rhai allweddol a

nodir yng Ngham 2 (uchod). Seiliwyd y dadansoddiad data eilaidd hefyd ar drafodaethau gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol a'r Is-adran Cartrefi a Lleoedd yn Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi dealltwriaeth fwy trylwyr o'r data. Mae'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o lefelau cydymffurfio SATC yn canolbwyntio ar y cyfnod 2011-12 hyd 2018-19 ac yn pwysleisio'r angen i fod yn ymwybodol o newidiadau i bolisi a chyfarwyddyd wrth ddehongli cynnydd dros amser.

- 2.10 Mae'r elfen hon o'r broses ymchwil hefyd yn rhoi asesiad manwl o'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol a LCC yng nghyswllt cydymffurfio wedi ei dorri i lawr yn ôl elfennau unigol SATC dros y cyfnod o 8 mlynedd. Mae hefyd yn archwilio'r mater o 'fethiannau derbyniol' – cysyniad pwysig o ran gwerthuso cynnydd tuag at gyflawni cydymffurfiad llawn – yn ogystal â rôl Lwfansau Gwaith Trwsio Mawr (MRA) a chyllid Gwaddol ar gyfer gwelliannau cyfalaf sy'n cyd-fynd â chyrraedd SATC.

Cam 4: Adolygiad o safonau yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig

- 2.11 Mae'r adran hon yn tynnu ar amrywiaeth o gyhoeddiadau Llywodraeth ar-lein o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i olrhain datblygiad safonau ansawdd cyfatebol ar gyfer tai cymdeithasol yn yr awdurdodaethau hyn. Crynhoir y wybodaeth a gafwyd o'r cyhoeddiadau hyn ar ffurf tabl yn Atodiad A er mwyn hwyluso cymhariaeth. Ond, mae'n bwysig pwysleisio, er bod y crynodeb hwn yn amlygu gwahaniaethau rhwng awdurdodaethau o ran safonau, nid yw'n ceisio llunio casgliad cyffredinol ar rinweddau cymharol ac ansawdd pob un o'r safonau hyn – rhywbeth fyddai'n gofyn am werthusiad technegol cynhwysfawr sy'n gorwedd tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn.

Cam 5: Crynodeb o'r canfyddiadau — safonau posibl at y dyfodol

- 2.12 Mae'r cam hwn yn tynnu at ei gilydd ganfyddiadau allweddol yr ymchwil ac roedd drafft cychwynnol o'r rhain yn sail ar gyfer cyflwyniad i swyddogion Llywodraeth Cymru. Bu'r drafodaeth ddilynol yn help i fod yn sail i ddehongli'r dadansoddiad yn ogystal â siapia casgliadau'r astudiaeth yn y pen draw ac argymhellion yng nghyswllt safonau yn y dyfodol.

Cam 6: Gweithdy gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol

- 2.13 Roedd cam olaf yr ymchwil yn cynnwys gweithdy ar-lein gyda grŵp cyfeirio SATC oedd yn cynnwys swyddogion landlordiaid cymdeithasol ar draws Cymru oedd wedi gwirfoddoli i gyflawni'r swyddogaeth ymgysylltu hon. Er nad yw'n grŵp sy'n gynrychioliadol yn ystadegol, roedd yn adlewyrchu ystod eang o fathau o landlordiaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a LCC llai a mwy.
- 2.14 Dyluniwyd y gweithdy i 'wirio synnwyr' canfyddiadau'r ymchwil ac, yn ysbryd cyd-gynhyrchu, casglu barn arbenigwyr ar y ddaear i sicrhau bod y casgliadau a'r argymhellion yn realistig ac yn rhai y gellid eu cyflawni. Canolbwyntiodd rhan gyntaf y cyflwyniad gan y tîm ymchwil ar ystadegau cydymffurfio, rhai sylwadau traws-awdurdodaethau a'r manteision sydd wedi deillio o gyflwyno SATC. Rhoddodd yr adborth o'r ddau grŵp llai gyngor yng nghyswllt y diwygiadau arfaethedig i SATC ac i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno yn llwyddiannus.
- 2.15 Archwiliodd ail ran y cyflwyniad y cynigion i gefnogi polisiâu datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, gyda'r adborth yn rhoi dealltwriaeth ddefnyddiol o ran yr egwyddorion a fabwysiadwyd a'r gefnogaeth all fod ar landlordiaid ei hangen i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Rhoi adroddiadau

- 2.16 Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro i adlewyrchu'r camau allweddol yn y gwaith fel y mae'n cael ei amlinellu uchod ac wedi ei ysgrifennu mewn arddull sy'n cadw'r defnydd o jargon technegol cyn lleied â phosibl ac yn arwain y darlennydd at y casgliadau a'r argymhellion mewn modd rhesymegol.

Cyfngiadau'r ymchwil

- 2.17 Roedd y rhan fwyaf o'r canfyddiadau ymchwil allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r astudiaeth hon yn seiliedig ar ystod a swm sylweddol o ddata eilaidd a roddwyd i'r tîm ymchwil gan Lywodraeth Cymru. Casglwyd y data dros y blynyddoedd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol. Ond, o ystyried bod y data hwn wedi ei roi gan y sefydliadau yma eu hunain ac o ystyried y potensial ar gyfer dehongliadau gwahanol o fanylion SATC mae'n bwysig pwysleisio, yn

gyffredinol, y gall y canfyddiadau fod yn seiliedig ar set ddata a all fod yn anghyson i ryw raddau.

- 2.18 Yn yr un modd, ni all y staff a ddaeth i'r gweithdy i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol (fel y nodir uchod) gael eu hystyried yn sampl sy'n gynrychioliadol yn ystadegol.
- 2.19 Ond, er y dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiadau manwl a ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi data eilaidd a'r adborth gan LCC a staff awdurdodau lleol, mae'r tîm ymchwil yn fodlon bod y casgliadau a'r argymhellion cyffredinol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn sydd ar gael.

3. Cefndir a c hyd-destun safonau ansawdd tai

Crynodeb

- Roedd datblygiad SATC yn dilyn cyfnod parhaus o adeiladu tai cyngor, oedd erbyn yr 1980au a'r 1990au, yn dechrau creu agenda drwsio a gwella.
- Y set gyntaf o safonau ar gyfer tai cymdeithasol ar rent yng Nghymru oedd y Gofynion Ansawdd Datblygu ar gyfer Cartrefi Presennol ac Adferedig (DQR) a gyflwynwyd gan Tai Cymru i gartrefi cymdeithasau tai.
- Cyflwynodd y strategaeth dai genedlaethol gyntaf – Cartrefi Gwell i Bobl Cymru (2001) - y cysyniad o dai o safon uchel ar rent, safonau cyffredin a niwtraliaeth o ran daliadaeth.

Gwreiddiau safonau ansawdd tai yng Nghymru

- 3.1 O ddechrau'r Ail Ryfel Byd a thrwy gydol yr 1950au roedd awdurdodau lleol yn adeiladu mwy o dai nag adeiladwyr tai preifat ac, erbyn diwedd yr 1970au, roeddent yn adeiladu 100,000 o dai yn flynyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn canolbwyntio ar glirio slymiau yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd. Erbyn yr 1980au a'r 1990au, roedd llawer o'r twf ar ôl y rhyfel mewn tai cyngor yn dechrau (ar ôl deg mlynedd ar hugain) cynhyrchu agenda drwsio a gwella yr oedd landlordiaid yn gorfod dod o hyd i'r adnoddau i'w hariannu.
- 3.2 Roedd y blynyddoedd o lywodraethau Ceidwadol yn y Deyrnas Unedig yn yr 1970au a'r 1980au wedi gweld diwedd y twf mewn adeiladu tai gan awdurdodau lleol, wrth i gymdeithasau tai gael eu gweld fel yr ateb i'r angen am ragor o dai cymdeithasol. Ac o'r 1980au hwyr disgwyliid i'r sefydliadau tai annibynnol yma godi mwy a mwy o'r arian oedd arnynt ei angen i adeiladu cartrefi newydd gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Yng Nghymru, rhoddwyd anogaeth i'r cyllido cymysg hwn trwy Gorfforaeth Tai Cymru ac yna Tai Cymru, y cwango a sefydlwyd yn 1988 i ariannu a rheoleiddio cymdeithasau tai yng Nghymru. Yn 1994, oherwydd pryder am reoli safon y cartrefi cymdeithasau tai presennol yn ogystal ag ariannu datblygiadau newydd, gwnaeth Tai Cymru hi'n ofynnol i gymdeithasau tai ddechrau

cynnal arolygon cyflwr stoc a chefnogodd rai cymdeithasau i gynnal y rhain. Bedair blynedd yn ddiweddarach, yn 1998, cyflwynodd Tai Cymru Ofynion Ansawdd Datblygu ar gyfer Cartrefi Presennol ac Adferedig (DQR) gyda dyddiad targed o 2010 - y tro cyntaf i darged o ran safon ar gyfer tai cymdeithasol presennol gael ei osod yng Nghymru. Ffurfiodd y DQR y sail ar gyfer gofynion technegol SATC oedd i gael ei lansio bedair blynedd yn ddiweddarach.

Sefydlu SATC

- 3.3 Mae SATC wedi bod yn rhan o'r rhan fwyaf o drafodaethau polisi tai yng Nghymru ers iddi ymddangos gyntaf fel cynnig ym mlynnyddoedd cynnar Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Canlyniad ymgynghoriad eang a chydweithio gyda grwpiau gorchwyl yn cynrychioli llawer o'r rhanddeiliaid o'r sector oedd y strategaeth gyntaf ar gyfer tai - Tai Gwell i Bobl Cymru (2001). Ynnddi, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y syniad o dai o safon uchel ar rent, safonau cyffredin a niwtraliaeth daliadaeth. Daeth hyn yn ystod cyfnod pan oedd lefelau dadfeilio difrifol yn y sectorau tai cyhoeddus a phreifat, gwaith trwsio a gwelliannau wedi cronni, llawer o dai cymdeithasol yn cael eu cydnabod fel rhai aneffeithlon o ran ynni a thlodi tanwydd yn cynyddu'n frawychus. Cydnabuwyd a derbyniwyd y cysylltiad rhwng tai gwael ac iechyd, diogelwch a llesiant pobl, oedd wedi ei hen sefydlu mewn ymchwil. Cyfeiriwyd at effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach 'tai mewn cyflwr gwael' a'r her o ddenu buddsoddiad i ymdrin â'r broblem. Yn y rhagair i'r strategaeth, fe wnaeth Edwina Hart, y Gweinidog Cyllid ar y pryd, gysylltu ansawdd tai ag ansawdd bywydau pobl yn glir. Yn wir, dynodwyd ansawdd fel '*y brif thema sy'n rhedeg trwy ein strategaeth...*'⁵
- 3.4 Roedd gan Lywodraeth y Cynulliad ddiffiniad clir o'r hyn oedd 'ansawdd da' yn ei olygu a byddai'r saith categori yn ei ddiffiniad yn eu tro yn dod yn SATC:
- 'Rydym am ddileu tai gwael ar draws pob daliadaeth. Dyna pam ei bod yn bwysig bod pob aelwyd yng Nghymru yn cael y cyfle i fyw mewn cartrefi o ansawdd da h.y., cartrefi sydd: mewn cyflwr da; yn ddiogel a saff; yn cael eu cynhesu'n ddigonol, yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac wedi'u hinswleiddio'n dda; yn cynnwys ceginau*

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001, Cartrefi Gwell i Bobl Cymru

ac ystafelloedd ymolchi cyfoes; yn cael eu rheoli'n dda (ar gyfer tai ar rent); wedi'u lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel; a chyn belled ag y mae'n bosibl yn addas i anghenion penodol yr aelwyd (e.e. anableddau penodol) ⁶

- 3.5 Dynododd y strategaeth bod angen i dai cymdeithasol fod o ansawdd da ac ar gael yn rhwydd i'r 'rhai nad ydynt yn gallu prynu'. Dangosodd yn glir hefyd bod ar Lywodraeth y Cynulliad eisiau gweld y gwaith gwella a thrwsio oedd wedi cronni yn cael ei daclo ac atal yr hyn yr oedd yn ei weld fel dirywiad mewn cartrefi awdurdod lleol.

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001, Cartrefi Gwell i Bobl Cymru

4. Nodweddion a gweithredu cynnar

Crynodeb

- Roedd y cynnydd o ran cydymffurfio â SATC yn araf yn y cyfnod rhwng ei gyflwyno (2002) a'r adolygiad cyntaf (2011).
- Roedd adolygiadau yn 2012 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn feirniadol o agweddau ar y safon, ei gweithrediad, a'r cynnydd tuag at gydymffurfio.
- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru wrth ei chyflwyno a'u diwygio yn 2008 pan gyflwynwyd y cysyniad o 'fethiant derbyniol'.
- Mae monitro, rhoi adroddiadau a data wedi codi heriau i landlordiaid cymdeithasol a Llywodraeth Cymru ers i SATC gael ei chyflwyno.
- Cydymffurfio â'r Safon Amgylcheddol sydd wedi codi'r her fwyaf sylweddol i'r landlordiaid.
- Mae awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig wedi dilyn patrwm tebyg i ddatblygu safonau ar gyfer tai cymdeithasol ar rent i'r un yng Nghymru gyda'r safonau yn cael eu cyflwyno gyntaf yn gynnar yn y 2000au ac adolygiadau ar y gweill ar hyn o bryd. Mae dadl y gellid dweud bod SATC yn drymach o ran gofynion na'r rhai a welir mewn awdurdodaethau eraill.

Safon Ansawdd Tai Cymru hyd at 2010

- 4.1 Cyflwynwyd SATC gan Lywodraeth Cymru yn 2002, i 'godi safon ffisegol a chyflwr tai cymdeithasol yng Nghymru'. Y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio â'r safon oedd 2012 a fyddai'n troi yn 31 Rhagfyr 2020 yn ddiweddarach. Yn ddiweddarach, o ganlyniad i effaith Covid-19, rhoddwyd estyniad o flwyddyn tu hwnt i'r dyddiad cau (hyd 31 Rhagfyr 2021) i nifer fechan o landlordiaid cymdeithasol.
- 4.2 Roedd cyflwyno SATC yng Nghymru yn dilyn newid sylweddol mewn polisi a buddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn Lloegr a gyhoeddwyd gyntaf gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn papur gwydd yn 2000⁷. Roedd yn dilyn ethol

⁷ Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2000, Quality and Choice: A Decent Home for All – The Housing Green Paper

Llywodraeth Lafur yn 1997 pan oedd tua 2.2 miliwn o gartrefi cymdeithasol yn cael eu hystyried yn anaddas. Yn 2000, gosododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig darged iddi ei hun o godi'r holl dai cymdeithasol at safon dderbyniol erbyn 2010. Roedd cartref derbyniol yn un oedd yn cyrraedd pedwar maen prawf: y safon gofynnol statudol ar gyfer tai; mewn cyflwr rhesymol; â chyfleusterau a gwasanaethau rhesymol o gyfoes; ac yn cynnig graddau rhesymol o foethusrwydd o ran gwres.

- 4.3 Yng Nghymru, cyhoeddwyd cyfarwyddyd ar wahân ar gyfer cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn 2003⁸. Roedd hyn yn esbonio beth oedd angen i landlordiaid ei wneud a phryd yr oedd angen iddynt ei wneud, er mwyn cyrraedd SATC; roedd yn nodi'r manylion am SATC ac yna'r gofynion a'r cyfarwyddyd arfer da. Dechreuodd landlordiaid ar y broses o'i weithredu, ond roedd nifer yn gweld ei dehongli yn heriol. Arweiniodd hyn, yn y pen draw, yn 2008, at gyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig⁹.
- 4.4 Heblaw am gyfeiriad at SATC a'r potensial ar gyfer trosglwyddo stoc rhannol yn Adolygiad Essex yn 2008¹⁰ mae bwlch yn y llenyddiaeth sydd ar gael i esbonio beth y mae landlordiaid yn ei wneud rhwng 2002 a 2010. Ond, yn 2010, sefydlwyd astudiaeth beilot gan Dasglu Gweinidogol i fonitro cynnydd SATC. Cyhoeddwyd y canlyniadau yn 2011¹¹ a ddangosodd amrywiaeth o ran perfformiad gyda 35% o gartrefi cymdeithasau tai a 15% o gartrefi awdurdodau lleol yn cyrraedd SATC ym Mawrth 2010. Roedd yn ofynnol i gymdeithasau tai, trwy reoliadau, ddangos buddsoddiad dros amser mewn cynnal a chadw eu tai.

Adolygiad 2012 a newidiadau i SATC

- 4.5 Roedd amheuan ar y dechrau am y data swyddogol, ystadegau, adroddiadau a monitro yng nghyswllt cydymffurfio ym mlynnyddoedd cynnar SATC. Cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygiad o gynnydd yn 2012¹². Cododd yr adroddiad amheuan a oedd y dyddiad cau ar gyfer cyrraedd SATC erbyn 2012 erioed yn

⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, Safon Ansawdd Tai Cymru, Cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig am y Broses Asesu a Chyflawni'r Safon

⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru a HouseMark Cymru, 2008 WHQS: Revised Guidance for Social Landlords on Interpretation and Achievement of the WHQS

¹⁰ Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy, 2008, Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog Tai

¹¹ Llywodraeth Cymru, 2011, Perfformiad landlordiaid cymdeithasol wrth gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru

¹² Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

realistig oherwydd y diffyg gwybodaeth gadarn yng nghyswllt gwaelodlin cyflwr tai cymdeithasol pan sefydlwyd SATC, a'r dyddiad targed yn 2012 ar gyfer cydymffurfio'n llawn. Yng nghyd-destun y diffyg data hwn, pwysleisiodd yr adroddiad mae targed i ymgynraedd ato oedd hwn.

- 4.6 Ar adeg yr adolygiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, cytunodd Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), y corff masnach ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru gyda'i farn.¹³ Ond, roedd yn cydymdeimlo mwy â'r targedau, gan dystio bod Llywodraeth Cymru yn gywir wrth osod targedau gan fod hyn yn annog gweithgaredd ac yn annog LCC ac awdurdodau lleol i ystyried y dewisiadau buddsoddi ar gyfer y dyfodol ynghyd â'u tenantiaid. Ond fe wnaeth CHC arddangos yr anghysondeb rhwng y broses o osod targedau i ymgynraedd atynt gan nodi bod y LCC oedd eisoes wedi eu sefydlu yn 2002, fe ellid dadlau, mewn sefyllfa gryfach i gynraedd SATC na'r rhai a sefydlwyd wedyn o ganlyniad i drosglwyddo stoc, neu awdurdodau lleol a gynhaliodd bleidlais ymysg tenantiaid am drosglwyddo stoc a chael pleidlais yn erbyn.
- 4.7 Roedd beirniadaeth sylweddol hefyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o Lywodraeth Cymru am y diffyg gweithredu i ymdrin â'r cynnydd cyfyngedig a wnaed gan awdurdodau lleol wrth gynraedd SATC.
- 4.8 Nododd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012 bod amwysedd am y cosbau y byddai'r llywodraeth yn eu rhoi i landlordiaid nad oedd yn cynraedd SATC erbyn y dyddiad targed. Roedd yn nodi bod yr adolygiad o strategaeth Cartrefi Gwell gan Lywodraeth Cymru¹⁴ (2006) yn dangos bod 10 o'r 22 awdurdod lleol heb gadarnhau eu cynlluniau i gynraedd SATC. Er gwaethaf y diffyg cynnydd amlwg mewn rhai ardaloedd, ni wnaeth yr adolygiad ailasesu dichonolrwydd y dyddiad targed o 2012. Er bod yr adolygiad yn codi pryderon am awdurdodau lleol nad oedd yn cynnal gwerthusiad o'r dewisiadau, nid oedd yn ystyried yr angen am unrhyw gamau i ddatrys hyn.

¹³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynnydd o ran cynraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, paragraff 43

¹⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru: Adolygiad Dethol

- 4.9 Ond, yn ôl adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru¹⁵ fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno meini prawf newydd ar gyfer y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (MRA) yn 2008. Roedd hwn yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod â chynllun busnes hyfyw i gyrraedd a chynnal SATC, neu fod wedi ymroi mewn ffordd arall i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael neu 'Werth am Arian'.
- 4.10 Credai Llywodraeth Cymru y byddai dal yr MRA yn ôl wedi ei gwneud yn fwy anodd fyth i awdurdodau lleol gyflawni gwaith gwella yn gysylltiedig â SATC a phenderfynu bod y meini prawf newydd yn cryfhau ffocws awdurdodau lleol ar gyrraedd SATC.
- 4.11 Yn ychwanegol at yr adolygiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, roedd adolygiad mwy cyfyngedig gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (PAC) yn 2012¹⁶. Roedd ei farn yn adlewyrchu llawer o werthusiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan nodi nad oedd asesiad gwaelodlin o ansawdd tai cymdeithasol oedd yn bodoli, diffyg cyfarwyddyd i helpu landlordiaid ddehongli'r safon a chydymffurfio ag o, a dim cynllun clir i fonitro cynnydd (gan gynnwys cyfanswm y gwariant dan sylw). Cyfeiriodd adroddiad diweddarach gan Lywodraeth Cymru (2014) ar gynnydd SATC at y '*cryn ryddid i landlordiaid o ran dehongli'r Safon. Dengys nad yw diffinio'r Safon yn syml; mae'n gyfrifiad cymhleth lle mae angen gwybodaeth am rhwng 50 a 70 cydran ac is-gydran ar gyfer pob tŷ. Mae llawer mwy i weithredu'r safon nac uwchraddio cydrannau adeilad.*'¹⁷
- 4.12 Amlygodd adolygiad PAC 2012 bod rhai awdurdodau lleol yn cael eu hatal yn ariannol gan 'ddewis democrataidd' y tenantiaid ac na ddylent gael eu cosbi. Er gwaethaf hyn, roedd yr adolygiad yn feirniadol o Lywodraeth Cymru am nad oedd ganddynt gosb ymarferol y gallai ei defnyddio i ymdrin ag awdurdodau lleol oedd heb gynlluniau busnes credadwy ar gyfer ariannu SATC, ac oedd wedi dewis peidio rhoi cyfle i denantiaid bleidleisio am drosglwyddo stoc.

¹⁵ Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

¹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

¹⁷ Llywodraeth Cymru, 2014, Safon Ansawdd Tai Cymru: Gwirio'r cynnydd tuag at dderbyn y Safon, 2014

4.13 Nid oedd gwerthusiad trylwyr Archwilydd Cyffredinol Cymru¹⁸ yn dal yn ôl:

‘Ceir cytundeb cyffredinol â nodau SATC, ond mae agweddau ar yr hyn y mae’n ei olygu yn ymarferol wedi bod yn aneglur a cheir rhywfaint o ansicrwydd ynghylch datblygiad y Safon yn y dyfodol’

Er bod buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn gwaith i gyrraedd SATC, mae’n anodd nodi cyfanswm y gwariant ac efallai fod cyfleoedd i gyflawni gwaith gwella mewn ffordd fwy effeithlon neu ddarbodus wedi’u colli’

‘Mae’r ffaith bod y broses o drosglwyddo stoc wedi bod yn arafach na’r disgwyl mewn rhai awdurdodau lleol wedi rhwystro cynnydd tuag at gyrraedd SATC a, hyd yma, mae’r broses o drosglwyddo stoc wedi gorfod cael cymorth ariannol gwerth o leiaf £476 miliwn’

‘Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu’n ddigon cyflym nac effeithiol i fonitro cynnydd a sicrhau bod landlordiaid yn rhoi blaenoriaeth i waith i gyrraedd SATC. Ceir tystiolaeth gadarnhaol o fuddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn sgîl gwaith i gyrraedd SATC ond mae rhai landlordiaid wedi canolbwyntio’n fwy ar hyn nag eraill ac nid oes fframwaith clir ar gyfer mesur llwyddiant.’

Cyfarwyddyd

4.14 Mae SATC yn defnyddio dull yn ôl elfennau yn hytrach na’r tŷ cyfan wrth fesur cydymffurfiad, gyda phedwar deg dau o elfennau unigol yn y saith categori. Mae cydymffurfiad llawn yn cyfeirio at eiddo lle mae SATC yn cael ei gyrraedd ar gyfer y pedwar deg a dau o elfennau unigol i gyd. Ond, gall sefyllfaoedd godi pan na fydd yn bosibl cyrraedd y safon ar gyfer elfen unigol. Gall sefyllfaoedd o’r fath gynnwys cost neu amseru’r gwaith, preswylwyr yn dewis peidio â chael gwaith wedi ei wneud neu pan fydd cyfyngiadau ffisegol ar y gwaith – yn y sefyllfaoedd hyn cofnodir un neu fwy o elfennau fel ‘methiannau derbyniol’ – cysyniad oedd yn absennol pan gyflwynwyd SATC yn 2008. Pan fydd cartref yn cynnwys un neu fwy o ‘fethiannau

¹⁸ Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

derbyniol' ond bod yr holl elfennau eraill yn cydymffurfio, pennir bod yr eiddo yn cydymffurfio â SATC ond yn ddarostyngedig i 'fethiannau derbyniol'.

4.15 Yn ei gyfarwyddyd¹⁹ ar yr adeg pan gyhoeddwyd SATC, awgrymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) y dylai landlordiaid flaenoriaethu yn eu rhaglenni gwella trwy ystyried:

- Iechyd, diogelwch a bod yn saff;
- Gwybodaeth am farn a dyheadau tenantiaid;
- Profiad o fod angen cartref a pha mor osodadwy;
- Effeithlonrwydd ynni; a
- Sefyllfa ariannol y LCC a'i allu i sicrhau adnoddau yn y dyfodol.

4.16 Cyflwynodd Canllawiau Diwygiedig 2008 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a HouseMark Cymru²⁰ y syniad o brif elfennau ac elfennau eilaidd i wahaniaethu rhwng gwaith gwella sy'n effeithio ar ddiogelwch y trigolion a hefyd cyflwynodd y term 'methiant derbyniol':

'Minimum Requirements which develop the Standard in greater detail are considered to be an acceptable minimum. Each element of the Standard has been categorised as either a Primary or Secondary element:

- *a Primary element is one that impacts on the safety of the residents*
- *a Secondary element is more focused around the comfort of the residents'*

Yn yr Adran ar Asesu, cyflwynodd y Canllawiau Diwygiedig categori newydd:

'Appendix 3 provides landlords with an assessment checklist as a quick reference point to assist in ensuring that all elements of the Standard have been considered. In all possible cases, landlords will assess elements as Pass, Fail or Not Applicable. In cases where this is not possible, it may be appropriate to employ the 'acceptable fail' category'.²¹

¹⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002, Safon Ansawdd Tai Cymru, Cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol am y Broses Asesu a Chyflawni'r Safon

²⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru a HouseMark Cymru, 2008 WHQS Revised Guidance

²¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru a HouseMark Cymru, 2008 WHQS Revised Guidance

- 4.17 Aeth y Canllawiau ymlaen i esbonio mai dim ond mewn un neu gyfuniad o bedair sefyllfa y gellid defnyddio 'methiant derbyniol': cost datrys; amseriad y datrysiad; dewis y preswylwyr; neu gyfyngiadau ffisegol.
- 4.18 Roedd y diffyg cyfarwyddyd cychwynnol ar SATC wedi achosi oedi o ran cyrraedd SATC. Roedd y cyfarwyddyd cychwynnol a roddwyd i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn Ebrill 2002 a Thachwedd 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gael trefn derfynol ar eu cynlluniau i gyrraedd SATC erbyn diwedd 2006. Daeth Adolygiad PAC (2012) i'r casgliad bod landlordiaid wedi codi pryderon yn 2004 am ddehongli'r Safon ond ni wnaeth y canllawiau diwygiedig ymddangos hyd 2008.
- 4.19 Nododd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (2012), er gwaethaf cyflwyno'r dewis 'methiant derbyniol', roedd landlordiaid yn gweld ei ddefnyddio yn heriol, gan nodi mai ychydig o landlordiaid oedd yn gallu rhoi manylion y data. Yn dilyn hynny cofnododd Llywodraeth Cymru bod landlordiaid wedi cofnodi o leiaf 11,000 o 'fethiannau derbyniol' – yn fwyaf cyffredin oherwydd cyfyngiadau ffisegol neu ddewis preswylwr.²²
- 4.20 Trwy waith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2012, daeth yn glir na fyddai rhai landlordiaid yn cyrraedd y dyddiad cau gwreiddiol yn 2012²³. Symudwyd y targed i 2020.

Monitro, rhoi adroddiadau a data

- 4.21 Wrth ei lansio ni wnaeth Llywodraeth Cymru osod targedau interim ar gyfer y cynnydd tuag at gydymffurfio â SATC ac, hyd 2010, nid oedd wedi ceisio mesur cynnydd landlordiaid yn gyson. Cyflwynwyd trefn fonitro gyntaf yn 2010 – roedd hon yn ymdrech gyntaf ond roedd mewn gwirionedd yn fwy o ymarfer casglu data. Cyhoeddwyd dadansoddiad yn 2011.²⁴

²² Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru - crynodeb Para 13

²³ Adroddwyd: 'Mae chwe chymdeithas Trosglwyddiadau Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT) a dau awdurdod lleol wedi cytuno ar estyniadau Llywodraeth Cymru i'r dyddiad targed yn ffurfiol' – gweler para 5 tudalen 7 Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

²⁴ Llywodraeth Cymru, 2011, Perfformiad landlordiaid cymdeithasol wrth gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru

- 4.22 O ran ansawdd y data, nododd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (2012) wahaniaethau clir yn ansawdd y data cyflwr stoc a rhwyddineb casglu'r data gan landlordiaid. Cydnabu'r adroddiad bod yr amrywiadau yn ansawdd y data yn ymwneud â pha mor soffistigedig oedd cronfeydd data'r landlordiaid a oedd yn arwain at asesiad mwy cadarn a dibynadwy gan rai landlordiaid, gydag eraill yn gallu rhoi amcangyfrifon yn unig y gallent eu cael o'r arolygon a'r cronfeydd data oedd ar gael.
- 4.23 Yna cyflwynodd Llywodraeth Cymru weithdrefnau monitro a chasglu data ychwanegol o 2012 gyda chanllawiau cryfach ar gyfer llenwi'r data mewn modd mwy cyson, gyda'r nod o wella'r monitro ar gynnydd i gyrraedd SATC. Hyd hynny roedd yn cael ei dderbyn bod rhai agweddau o SATC yn agored i'w dehongli yn orddrychol.
- 4.24 Ar y dechrau nid oedd unrhyw ddilysu annibynnol ag archwilio, neu ddim ond ychydig iawn ar yr hyn yr oedd y landlordiaid yn ei adrodd amdanynt eu hunain. Nododd adolygiad PAC 2012²⁵ bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddilysu ffurflenni landlordiaid trwy naill ai: gomisiynu gwiriadau annibynnol ar hap ar sampl o'r eiddo sy'n cael eu hystyried yn cydymffurfio yn llawn â SATC er mwyn gwirio cysondeb dehongliad y landlordiaid o ofynion SATC; neu gomisiynu arolwg cyflwr stoc, fel arolwg Byw yng Nghymru 2008²⁶, i roi cymhariaeth gyda ffurflenni landlordiaid.
- 4.25 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd i helpu i sicrhau cysondeb o ran dehongli heblaw'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2003, 2008, canllawiau astudiaethau achos ar 'fethiannau derbyniol' yn 2019 a chanllawiau ar y cam cynnal a chadw a Chodau Rheswm yn 2019. Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n fwy clos gyda landlordiaid cymdeithasol a'u dwyn at ei gilydd mewn rhwydweithiau. Cynhaliwyd gweithdai²⁷ hefyd ar 'fethiannau derbyniol' a chynhaliwyd sesiynau adborth SATC gyda chymdeithasau tai ac awdurdodau lleol. Bu hyn yn gam pwysig ond anffurfiol tuag at rannu arfer da a chynyddu

²⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

²⁶ Llywodraeth Cymru, 2010, Arolwg Byw yng Nghymru: 2008

²⁷ Yn ôl tystiolaeth gweithdai Methiannau Derbyniol SATC gyda landlordiaid yn 2019.

ymddiriedaeth gyda landlordiaid cymdeithasol ym mhob sector. Ni chanfu'r ymchwili unrhyw dystiolaeth bod hyfforddiant ffurfiol na chefnogaeth cymheiriaid wedi ei threfnu wedi eu darparu yn uniongyrchol gan Llywodraeth Cymru nac yn annibynnol i gynorthwyo landlordiaid i ddehongli SATC cyn 2017.

- 4.26 Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad o waith a gomisiynwyd gan yr ymgynghorwyr annibynnol Altair²⁸. Cynhaliodd Altair ymchwili i ddilysu cynnydd i gyrraedd SATC. Roedd yr adroddiad yn archwilio sut yr oedd landlordiaid yn barnu a chyfleu sut yr oeddent yn gweithredu neu wedi gweithredu SATC yn unol â'r cyfarwyddyd ar ddehongli a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2008, y graddau yr oedd dilysu annibynnol, allanol ar gydymffurfiaid ymhlith landlordiaid a'r graddau yr oedd buddion cymunedol wedi cael eu cyflawni gan raglenni gwella SATC.
- 4.27 Yn ei grynoded o ganfyddiadau a chasgliadau disgrifiodd adroddiad Altair (Llywodraeth Cymru, 2014) SATC fel rhywbeth sydd am fwy na gwella stoc, yn cwmpasu eiddo, pobl, yr economi a'r amgylchedd. Canfu'r adroddiad bod y weledigaeth ehangach hon yn gwneud dangos cyrraedd SATC, a pharhau i'w gynnal, yn gymhleth. Canfu hefyd bod y canllawiau yn rhoi cryn ryddid i landlordiaid o ran eu dehongliad wrth iddynt weithredu yn eu hamgylchiadau a'u cyd-destunau eu hunain, gyda mannau cychwyn gwahanol yng nghyswllt cydymffurfiaid, cyflwr eu stoc, argaeledd adnoddau ariannol a thechnegol, a phwysau arall y Cynllun Busnes.
- 4.28 Sefydlodd adroddiad Altair (Llywodraeth Cymru, 2014) bod y dehongliadau, amgylchiadau ariannol a chyfnodau gwahanol yng nghylch buddsoddi pob landlord yn mynd ar goll yn y dadansoddiad. Roedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhannu'r canlyniadau i adlewyrchu'r tri math o landlord: Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT) a Chymdeithasau Tai Traddodiadol. Roedd yn rhaid i Gymdeithasau Tai ddangos cynnydd tuag at gyrraedd a chynnal SATC, ond nid oedd awdurdodau lleol yn gorfod gwneud hynny. Newidiodd hyn pan ddaeth Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym. Rhoddodd Rhan 4 y Ddeddf bwerau i Lywodraeth Cymru osod safonau i'w cyrraedd gan awdurdodau lleol yng nghyswllt ansawdd y llety, rhent a thaliadau gwasanaeth am lety o'r fath. Gallai roi cyfarwyddyd yng nghyswllt y

²⁸ Llywodraeth Cymru, 2014, Safon Ansawdd Tai Cymru: Gwirio'r cynnydd tuag at dderbyn y Safon, 2014

safonau hyn a rhoddwyd pwerau ymyrryd iddi pan oedd yn ystyried bod yr awdurdod lleol wedi methu neu yn debygol o fethu cyrraedd y safon. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi hysbysiadau rhybudd yn nodi'r rhesymau pam bod yr hysbysiad wedi cael ei roi a'r camau oedd angen eu cymryd gan yr awdurdod. Pan nad oedd awdurdod lleol wedi cydymffurfio â'r hysbysiad rhybudd gallai pwerau ymyrryd gael eu harfer. Roedd y Ddeddf yn cyflwyno perthnasedd o ran bod cyrraedd SATC erbyn 2020 yn ofyn statudol i stoc a gadwyd gan awdurdodau lleol, gyda chosbau i'w gweithredu i orfodi cydymffurfriad.

- 4.29 Mewn llythyr at y landlordiaid yn 2015²⁹, cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru gynlluniau i symud ymlaen gydag argymhellion adroddiad Altair 2014. Roedd yn egluro'r angen i landlordiaid gasglu data am elfennau cynradd ac eilaidd i'w cynnwys yn eu ffurflen ystadegol flynyddol ac roedd yn gofyn i'r holl landlordiaid fod â pholisi cydymffurfio yn ei le erbyn Ebrill 2016. Byddai'r polisi hwn yn ei dro yn rhan o'r broses cynllunio busnes i'r holl landlordiaid cymdeithasol. Roedd y polisi cydymffurfio i fod yn *'a step towards providing the Welsh Government, tenants and Boards with assurance that WHQS has been met and is being maintained.'* Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Polisi yn sail ar gyfer proses ddilysu annibynnol ac y byddai angen i landlordiaid ddangos i randdeiliaid bod y broses ddilysu yn 'annibynnol'. Eglurodd hefyd y dylai'r broses ddilysu gynnwys:

- adolygiad blynyddol ar y gweithdrefnau casglu data;
- cynnal y gronfa ddata rheoli asedau;
- dilysu canlyniadau SATC; a
- gwiriadau ar hap i'r broses fonitro yn cael eu cynnal gan rywun nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni SATC trwy gasglu data, rheoli neu ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau a werthusir. Roedd yn nodi bod Adroddiad Altair (Llywodraeth Cymru, 2014) yn amlygu ffyrdd amrywiol yr oedd landlordiaid yn gwneud hyn, gan gynnwys archwiliad mewnol neu staff eraill heb

²⁹ Llywodraeth Cymru, 2015, WHQS, Verification in achieving and maintaining the Standard – next steps, Letter to Chief Executives and Directors of Housing in local authorities, RSLs and LSVTs

gysylltiad â chyflawni SATC, landlordiaid tai cymdeithasol eraill neu ymgynghorwyr allanol y rhoddwyd cyfarwyddyd penodol iddynt gyflawni'r broses.

- 4.30 Roedd y llythyr hefyd yn cadarnhau bod angen i'r polisi cydymffurfio nodi sut yr oedd landlordiaid yn bwriadu cyflawni'r dilysu ac os na fyddai system o wiriadau annibynnol yn ei lle, bod angen iddynt gynnwys hyn yn eu rhaglenni monitro neu archwilio.
- 4.31 Mae llawer o landlordiaid wedi sicrhau bod eu polisïau cydymffurfio ar gael ar eu gwefannau ac mae'n ymddangos eu bod yn dilyn y cynnwys a awgrymir yn adroddiad 2014 Altair. Bydd llawer yn cael eu cymeradwyo yn flynyddol gan bwyllgor, cabinet neu fwrdd, ac mae'n debyg y bydd ymgynghori â thenantiaid wedi digwydd. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno eu polisïau cydymffurfio i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cyflwyniad MRA ac mae LSVT yn cyflwyno adroddiad SATC blynyddol yn cynnwys eu polisïau cydymffurfio. Ni chafwyd hyd i unrhyw dystiolaeth fel rhan o'r prosiect hwn ei bod yn ofynnol i gymdeithasau tai gyflwyno eu polisïau cydymffurfio hyd 2020.
- 4.32 Mae nifer o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai hefyd wedi rhoi tystysgrifau i bob tenant newydd i'w hysbysu am statws SATC eu heiddo. Yn adroddiad 2014, argymhellodd Altair y dylai tenantiaid gael tystysgrif ynghyd â'u Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) bob tro y byddai eiddo'n cael ei ailosod, ac roedd Llywodraeth Cymru yn gofyn i landlordiaid cymdeithasol wneud hyn yn 2015. Ond, ni wnaeth y tîm ymchwil weld dystiolaeth bod unrhyw fonitro ffurfiol ar y gweithgaredd hwn wedi digwydd.
- 4.33 O ran dilysu, crynhodd Adroddiad Altair (2014) ganlyniad ei arolwg:
- '....Gofynnwyd i'r 11 Awdurdod Lleol (mis Tachwedd 2012) ddangos dystiolaeth bod cydymffurfiad â'r Safon wedi ei wirio. Bu i bum landlord gadarnhau bod hyn wedi ei wneud. Nid yw'r Rheoleiddiwr wedi gofyn i'r Cymdeithasau Tai wneud hyn. Mae pump o'r Cymdeithasau Tai Trosglwyddiad Gwirfoddol Graddfa Fawr yn dangos peth dystiolaeth o'u cynnydd tuag at y Safon fel rhan o'u haddewidion yn dilyn y trosglwyddo stoc. Dywedodd deuddeg Cymdeithas Dai Draddodiadol iddynt hefyd ymgymryd â gwaith gwirio allanol. Yn yr atebion dilynol, o'r rheini a ddywedodd y bu iddynt gynnal gwiriadau allanol, roedd 11 landlord wedi defnyddio eu staff eu*

hunain. Bu i landlordiaid ofyn am fwy o eglurhad ynghylch y geiriau ‘annibynnol’ a ‘gwirio’. ‘Roedd landlordiaid yn bryderus am gost gwneud arolygon pellach [arolygon ffisegol].’ (Llywodraeth Cymru, 2014)

- 4.34 Nid yw’n glir sut yr oedd landlordiaid cymdeithasol yn sicrhau dilysiad annibynnol. Mae’n ymddangos hefyd na ddaeth unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru o ran faint o’r gweithgaredd dilysu yma ddylai fod. Nid yw’n ymddangos bod unrhyw ddata am y gweithgaredd hwn wedi ei gasglu gan Lywodraeth Cymru. Ond, yn 2020, ychydig cyn i Lywodraeth Cymru gynnal gweithdai ar SATC gyda landlordiaid roedd cais i’r polisïau cydymffurfio gael eu cyflwyno. Ni chyhoeddwyd canlyniadau’r ymarfer hwn hyd yn hyn.

Safonau amgylcheddol

- 4.35 Mae SATC yn cynnwys safon amgylcheddol sy’n herio landlordiaid i leoli tai mewn amgylchedd y gall preswylwyr deimlo cysylltiad ag o ac y gallant fod yn falch o fyw ynddo. Cyflawni hyn a’i fonitro sydd wedi bod yn un o’r meysydd lleiaf clir o’r SATC i landlordiaid. Yn 2007, comisiynodd Llywodraeth Cymru TPAS Cymru a Groundwork Wales³⁰ i archwilio sut yr oedd landlordiaid yn dehongli’r gofynion amgylcheddol. Eu canfyddiad oedd bod gan lawer o landlordiaid farn gul a thechnegol am y gofynion. Rhoddodd TPAS Cymru a Groundwork Wales gyfarwyddyd yn amlinellu proses y dylai landlordiaid ei dilyn i ymgynghori â thenantiaid i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd y mae cartrefi ynddo.
- 4.36 Nododd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (2012) mai cyfyngedig oedd y flaenoriaeth a gafodd cyrraedd safonau amgylcheddol SATC, yn rhannol oherwydd eu diffyg eglurder. Yn 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru drafodaethau mewn cyfarfodydd gydag awdurdodau am y safonau amgylcheddol. Amlygodd y rhain amrywiaeth o bryderon a datrysiadau oedd wedi cael eu mabwysiadu i’w datrys.

Yr agenda newid hinsawdd sy’n dod i’r amlwg

- 4.37 Yn 2008, argymhellodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Dai Fforddiadwy y dylai’r cyfraniad y gallai SATC ei roi at yr agenda newid hinsawdd gael ei ailasesu. Roedd strategaeth ddilynol Llywodraeth Cymru yn 2010 ‘Gwella Bywydau a Chymunedau’

³⁰ TPAS Cymru a Groundwork Wales, 2008, Scope and Implementation of the WHQS Environmental Standard

yn cyfeirio at adolygu SATC i weld a ellid gwneud mwy i gefnogi gweithredu ar dlodi tanwydd, iechyd a newid hinsawdd. Ond, roedd landlordiaid wedi mynegi pryderon am effaith unrhyw newidiadau ar eu cynlluniau busnes presennol. Gwnaeth TPAS Cymru sylw ar y pryd y byddent wrth eu bodd yn gweld SATC yn cael safon effeithlonrwydd ynni uwch gyda'r cafeat bod cyflawni hynny'n dibynnu ar gyllid.³¹

Gwerth am arian

- 4.38 Roedd adroddiad 2012 Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod fframwaith effeithiol i ddangos 'gwerth am arian' o fuddsoddi mewn cyrraedd SATC. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu monitro ar lefel y buddsoddiad SATC a'r cyllid cyfalaf. Mae cyllid MRA a Gwaddol yn seiliedig ar adroddiadau SATC i'r llywodraeth a chynlluniau busnes Cyfrif Refeniw Tai blynyddol sy'n cadarnhau dosbarthu cyllid cyfalaf gan ddefnyddio cymeradwyaeth weinidogol.
- 4.39 Grant cyfalaf yw MRA a roddir i awdurdodau lleol i gefnogi rhaglenni SATC ac mae'n cael ei ailgyfrifo'n flynyddol. Mae'r taliadau Gwaddol, a wneir i LSVT, yn cael eu gosod yn y cytundebau a drafodwyd wrth drosglwyddo stoc ac maent yn llenwi'r bwlch oherwydd y diffyg yn y cynlluniau busnes ar y pryd.
- 4.40 Un o'r prif anawsterau yr oedd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ariannu SATC oedd y system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS). Cyfeiriodd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru³² a'r Adroddiad PAC at y diwygio a ragwelid ar y system ar adeg eu hadroddiadau yn 2012.³³ Roedd pryderon parhaus am y trosglwyddiadau sylweddol o lywodraeth leol yng Nghymru i Drysorlys EM, trwy Lywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r system hon. Roedd y rhain yn cyfateb i ryw £73.0 miliwn y flwyddyn³⁴. Nododd datganiad Cabinet Carl Sargeant yn 2016, yr Ysgrifennydd Cymunedau a Phlant ar y pryd, wrth archwilio cynnydd y SATC, bod £108.0 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf yn flynyddol. Yn 2015 gwnaeth Llywodraeth

³¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

³² Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

³³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

³⁴ Yr holl ffigyrau dros £1 miliwn wedi eu talgrynnu i un lle degol.

Cymru hi'n glir bod disgwyl i'r holl landlordiaid cymdeithasol ddefnyddio eu Hofferyn Mesur Gwerth Cymru³⁵ i fesur maint y buddion cymunedol. Ar 6 Hydref 2016, roedd yr Offeryn Mesur wedi olrhain contractau gwerth £452.0 miliwn yn ymwneud â SATC, wedi gweld 85% o gwariant hwnnw yn cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru ac wedi cynnig sefydlogrwydd economaidd ehangach gan helpu dros 777 o bobl i waith neu hyfforddiant ac wedi darparu'r hyn oedd yn cyfateb i 19,920 wythnos o hyfforddiant³⁶. Parhaodd y buddsoddiad hwn ers hynny mewn, er enghraifft, rhaglenni cyfnewid ceginau, rhaglenni inswleiddio waliau allanol ac ail doi.

- 4.41 Dengys amcangyfrifon blwyddyn ariannol diweddar ar gyfer 2020/21 bod y cyllid ar gyfer SATC a ddyrannwyd i'r un ar ddeg o awdurdodau lleol sydd wedi cadw stoc yn cyfateb i £60.4 miliwn y flwyddyn, gyda chyllid i ddeg cymdeithas dai yn cyfateb i £43.8 miliwn – cyfanswm o gyllid cyfalaf o £104.2 miliwn.
- 4.42 Y cyfanswm a ragwelwyd o gyrraedd a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru mewn tai awdurdod lleol oedd tua £3.3bn dros 30 mlynedd. Roedd hyn yn cynrychioli cost ar gyfartaledd i bob annedd o £23,000 hyd 2035³⁷.
- 4.43 Mae'n ymddangos nad yw gwerth am arian wedi bod yn ganolbwynt i unrhyw fonitro gan Lywodraeth Cymru. Edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar werth am arian wrth gaffael gwelliannau SATC gan rai o'r awdurdodau lleol y mae wedi eu hadolygu,³⁸ gan nodi bod adolygiadau cyhoeddedig wedi dangos, trwy adolygiad annibynnol a chymariaethau cost o ran dulliau caffael, eu bod wedi cyflawni gwerth am arian i Swyddfa Archwilio Cymru.

Cosbau am beidio â chydymffurfio

- 4.44 Mae'n anodd gwybod i ba raddau y mae peidio â chydymffurfio wedi ei gosbi yn ddifrifol. Roedd y cyllid MRA a Gwaddol yn cael eu pennu trwy ffurflenni blyneddol landlordiaid a byddai'r rhain wedi nodi pa waith fyddai'n angenrheidiol i gyrraedd SATC a chostau cydymffurfio cysylltiedig. Yn 2015 esboniodd Llywodraeth Cymru bod ganddi bwerau trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ond ni chanfu'r tîm ymchwil

³⁵ Llywodraeth Cymru, 2014, Budd i'r gymuned, Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian i'r Bunt Gymreig

³⁶ Llywodraeth Cymru, 2014, Budd i'r gymuned, Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian i'r Bunt Gymreig

³⁷ Llywodraeth Cymru, 2005, Welsh Housing Quality Standard and Social Housing Renewal, Social Justice and Regeneration Research Report SJRRR 4/05

³⁸ Gellir gweld yr adroddiadau hyn yn adran gyhoeddiadau [Gwefan Archwilio Cymru](#)

unrhyw dystiolaeth bod y rhain wedi eu defnyddio hyd yn hyn. Mae'r pwerau hyn mewn gwirionedd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymyrryd ym materion landlordiaid cymdeithasol yng nghyswllt safonau eu cartrefi.

Profiad awdurdodaethau eraill

- 4.45 Fel dull o gymharu ar gyfer esblygiad a chwmpas SATC, cynhaliwyd adolygiad o'r dull a ddefnyddiwyd i ymdrin â safonau mewn tai cymdeithasol ar rent ar draws tair awdurdodaeth arall y Deyrnas Unedig (h.y. Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban). Mae nifer o themâu cyffredin – nid y lleiaf yn eu plith yn y tair awdurdodaeth gymharol, bod safonau ar gyfer tai cymdeithasol ar rent wedi eu cyflwyno yn gynnar yn y 2000au wrth ymateb i bryderon bod safonau tai yn y sector yn annerbyniol o isel, heb unrhyw fetric i 'fesur' perfformiad landlordiaid unigol. Crynhoir manylion y safonau sy'n weithredol a'u hesblygiad yn Atodiad A.
- 4.46 Dengys y gymhariaeth gydag awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig hefyd bod cyflwyno set newydd o safonau wedi bod yn anodd eu cyrraedd ar y dechrau o fewn yr amserlen wreiddiol ond maent wedi cael eu cyrraedd yn fras erbyn tua 2020. Dechreuodd holl awdurdodaethau'r Deyrnas Unedig ar adolygiad o'r safonau ond nid oes yr un ohonynt wedi cyhoeddi drafft o sut y gellir diwygio'r rhain eto.
- 4.47 Mae'r safonau presennol yn dilyn naratif tebyg gyda phwyslais ar ddiogelwch y cartref, cyflwr a pha mor fodern yw'r cyfleusterau ond gyda gwahaniaethau o ran pwyslais. Ni wnaed cymhariaeth gynhwysfawr dechnegol o'r safonau gan y byddai' gofyn am ymchwil manwl tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Ond, rydym yn nodi sylwadau mewn gweithdai landlordiaid diweddar (a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru) bod SATC yn safon gyda mwy o ofynion nag yn yr awdurdodaethau eraill a hefyd sylw gan Swyddfa Archwilio Cymru³⁹ yn 2012 (ac nid yw'r safonau wedi eu diwygio yn sylweddol ers hynny) a gynhaliodd ei chymhariaeth ei hun a dod i'r casgliad:

“Mae'r Safon Tai Gweddus a Safon Ansawdd Tai'r Alban hefyd yn llai heriol o ran rhai o'u gofynion manwl, er enghraifft, mae'r radd effeithlonrwydd ynni sydd ei hangen yn is yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.. Fel enghraifft arall, mae

³⁹ Wrth nodi bod Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff ef/hi gyda'i gilydd yn llunio Swyddfa Archwilio Cymru

SATC yn ei gwneud yn ofynnol i geginau fod yn llai na 15 mlwydd oed neu mewn cyflwr da, ond mae Tai Gweddus yn awgrymu hyd oes o 20 mlynedd ar gyfer ceginau. Ceir gwahaniaethau hefyd yn y ffordd y caiff cydymffurfiaeth â'r safonau gwahanol ei mesur.”⁴⁰

- 4.48 O ran mesur y safonau, mae'n ymddangos mai'r gwahaniaethau allweddol yw bod SATC yn gofyn i eiddo fodloni'r 42 elfen i gyd i gydymffurfio â SATC (gan ystyried 'methiannau derbynol') ond mae gofynion safon Tai Gweddus yn Lloegr yn llai. Er enghraifft, o ran pa mor fodern yw'r cyfleusterau, dywedir bod eiddo yn methu cyrraedd safon Tai Gweddus os nad oes ganddo dri neu fwy o'r chwech o gyfleusterau a restrir⁴¹.
- 4.49 Mae'r enghreifftiau hyn o'r safonau sy'n weithredol ar draws yr awdurdodaethau yn dynodi bod gwahaniaethau ystyrlon ac y byddai'n annibynadwy cymharu cynnydd ym mhob awdurdodaeth ar sail cyrraedd safon yr awdurdodaeth honno yn unig. Ond, mae gofynion trymach SATC mewn cymhariaeth â'r safonau yn y tair awdurdodaeth arall yn y Deyrnas Unedig yn awgrymu bod SATC yn debygol o fod yn anos ei gyrraedd i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru na'r safonau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

⁴⁰ Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

⁴¹ Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2008, Decent Home: Definition and guidance for implementation, Update.

5. Cofnodi data, rheolaeth a chydymffurfio

Crynodeb

- Bu gwella safonau data SATC a buddsoddi yn y seilwaith cysylltiedig i gefnogi casglu data, monitro a gwerthuso yn effeithiol yn allweddol wrth wella ansawdd y ddarpariaeth dai gymdeithasol yng Nghymru.
- Cyn 2011, roedd casglu data SATC a'r monitro ar gydymffurfio ar sail ad hoc, gyda'r cynnydd tuag at gyrraedd y Safon yn araf ar y dechrau. Mae monitro a gwerthuso mwy effeithiol ers hynny yn ei dro wedi gyrru lefelau cydymffurfio SATC.
- Amcangyfrifodd arolwg eiddo Byw yng Nghymru 2004 bod 0.8% o'r holl dai cymdeithasol yn cyrraedd SATC (Llywodraeth Cymru, 2005). Canfu arolwg 2008 mai dim ond 6% o dai cymdeithasol oedd yn cyrraedd y safon.
- Yn gyffredinol mae cydymffurfiaeth â SATC wedi cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2012 a 2019. Wrth gynnwys 'methiannau derbyniol', mae 93% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru wedi llwyddo i gyrraedd y Safon ar ddiwedd Mawrth 2019.
- Roedd 6.9% o'r stoc yn parhau i beidio cydymffurfio â SATC. Mae'n ymddangos mai o ran perfformiad ynni y mae mwyaf o le ar gyfer gwelliant pellach wedi ei dargedu.

- 5.1 Cafwyd y data ar gyfer yr adran hon trwy wefan swyddogol Ystadegau Cymru ar 1 Chwefror 2021. Sylfaenwyd y data swyddogol a'r gosod mewn cyd-destun a dehongli dilynol ar gyfres o adroddiadau cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi, adborth a gofnodwyd o weithdai awdurdodau lleol (ALI) a chymdeithasau tai neu landlord cymdeithasol cofrestredig (LCC) a gynhaliwyd ym Mai a Mehefin 2020. Ychwanegwyd at y data eilaidd a gasglwyd trwy gyfweiliadau a thrafodaethau gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol a'r Is-adran Cartrefi a Lleodd yn Llywodraeth Cymru. Mae'r dadansoddiad yn gwerthuso lefelau cyrraedd SATC am y cyfnod 2011-12 hyd 2018-19.

Monitro data a chyfarwyddyd i roi adroddiadau

- 5.2 Hyd at 2011-12 roedd amheuan difrifol am y data swyddogol a'r dulliau adrodd a monitro yng nghyswllt cydymffurfio â SATC. Argymhellodd adroddiadau a

gwerthusiadau niferus o SATC yr angen am ystod o fonitro ar landlordiaid, gwell casglu data a chysondeb wrth ddehongli a rhoi adroddiadau am gydymffurfio. Amlygwyd y rhain mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad hwn.

- 5.3 Cyn cyflwyno'r monitro a'r dulliau rhoi adroddiadau mwy ffurfiol am SATC gan Lywodraeth Cymru, a chynhyrchu ystadegau swyddogol yn 2011/12, ysbeidiol oedd y casglu data a'i ddadansoddi er mwyn mesur cynnydd SATC. Cynhaliwyd ymarfer monitro gyda landlordiaid cymdeithasol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2011 i berfformiad cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wrth weithio tuag at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
- 5.4 Yn gynnar yn 2010, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio dull cydweithredol wrth gynnal yr ymarfer monitro a sefydlodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y dull mwyaf effeithiol o gasglu data am y cynnydd a wnaed gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wrth gyrraedd y safon.
- 5.5 O ganlyniad i waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, llwyddwyd i gael cytundeb ar fethodoleg i gasglu data oedd yn ddigon cadarn ond hefyd heb fod yn gymhleth. Llenwodd landlordiaid cymdeithasol ffurflenni monitro ar sail y fethodoleg y cytunwyd arni a'u cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad ym Medi 2010. Roedd y ffurflen fonitro wedi ei dylunio i gadarnhau lefel y cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru.
- 5.6 O 2011, mae ansawdd y data a roddir wedi gwella yn neilltuol o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gweithdrefnau monitro a chasglu data ychwanegol, gwell cyfarwyddyd, a rhoi adroddiadau ar ansawdd y data⁴². Bu ymdrechion hefyd i egluro'r dehongliad o SATC gan ddefnyddio cyfres o weithdai gyda landlordiaid i helpu i wella'r ddealltwriaeth a'r dehongli ar y broses, gweithdrefnau a dosbarthiadau SATC.
- 5.7 Mae'r cyfarwyddyd gwell, gwell tryloywder a chynyddu'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr data wedi eu dylunio gyda'r bwriad o wella ansawdd y data a chryfhau'r cysondeb o ran dehongli. Bu presenoldeb da yn y

⁴² Fel Safon Ansawdd Tai Cymru: Adroddiad ansawdd. Canllawiau Ffurflenni Ystadegol Safon Ansawdd Tai Cymru. Adroddiad Monitro Blyneddol Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2019/20. Pecynnau Monitro SATC a MRA

gweithdai ar agweddau amrywiol o SATC gan LCC ac awdurdodau lleol, gydag adborth cadarnhaol iawn am y lefel gynyddol o gyfathrebu a'r gwelliant yn y tryloywder.

Proses o roi adroddiad ar ddata

- 5.8 Cyflwynwyd rhagor o gasglu data swyddogol blynyddol yn 2012 er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed gan yr holl landlordiaid cymdeithasol (awdurdodau lleol a LCC) wrth gyrraedd SATC ar gyfer eu holl stoc.
- 5.9 Yn ychwanegol at fwletinau ystadegol blynyddol SATC, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiad ansawdd SATC i fesur y cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant a SATC.
- 5.10 Sylfaenir y casglu data ar ffurflenni ystadegol blynyddol a lenwir gan awdurdodau lleol a LCC gyda'r cyfarwyddyd i gyd-fynd ag o er mwyn eu llenwi yn brydlon. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dilysu a chroes-wirio i sicrhau cysondeb y data a'i ddilysu. Maent hefyd yn rhoi cyfle i landlordiaid gynnwys gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer rhoi adroddiad ar ddata sy'n newid yn sylweddol (>10%).
- 5.11 Mae proses dryloyw i sicrhau bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir ac ar sail gyson gyda gwallau wrth ddilysu yn arwain at drafodaethau gyda'r awdurdodau lleol neu LCC perthnasol i'w datrys.⁴³
- 5.12 Darparodd Llywodraeth Cymru adroddiad ansawdd⁴⁴ i gyd-fynd sy'n rhoi cyfarwyddyd defnyddiol i gynhyrchwyr ystadegol am yr arferion er mwyn cynnal ansawdd y data.
- 5.13 Cychwynnodd Llywodraeth Cymru brotocol monitro hefyd yn rhoi dealltwriaeth o'r data a'r ystadegau i bob landlord yn ei dro gan ddefnyddio dull ar sail data a risg i adlewyrchu pa mor agos yw'r dyddiad cau a'r risgiau o beidio cyflawni. Rhoddir hyn i'r holl landlordiaid cymdeithasol fel pecyn data sy'n rhoi adolygiad o'u perfformiad yng nghyswllt SATC a hefyd data cymharol ar gyfer 'meincnodi' cydymffurfio a 'methiannau derbyniol'.

⁴³ Mae'r holl ystadegau sy'n cael eu paratoi yn glynu at safonau proffesiynol cydnabyddedig ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau a sicrhau ansawdd a Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol wedi eu sgorio mewn cymhariaeth â metrics Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, 2019, Safon Ansawdd Tai Cymru: Adroddiad Ansawdd

‘Methiannau derbyniol’

- 5.14 Yn 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cymru’r cysyniad o ‘fethiant derbyniol’, yn ymwneud ag amgylchiadau pan fydd naill ai’n amhosibl neu nad yw’n gost effeithiol i eiddo gael ei ddwyn at SATC neu pan fydd tenant yn dewis peidio â chael y gwaith i gyrraedd y SATC wedi ei wneud.
- 5.15 Dengys tystiolaeth anecdotaidd o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a landlordiaid bod ‘methiannau derbyniol’ yn hanesyddol wedi bod yn agwedd y bu cryn drafod arni ar SATC gyda dim newidiadau i SATC yn cael eu caniatáu gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd cynharaf. Cyflwynodd hyn heriau mawr yng nghyswllt eiddo hŷn, llawer ohonynt yn lleoliadau heriol (Cymoedd De Cymru, Gogledd Cymru, siroedd gwledig ac ati) gyda hanes o ddiffyg buddsoddiad.
- 5.16 Roedd cyfarwyddyd diwygiedig Llywodraeth Cymru yn 2008 ar SATC yn nodi y dylai landlordiaid gofnodi pob achos o ‘fethiant derbyniol’ fel y gellid cynllunio a rheoli gwaith yn y dyfodol yn briodol. Roedd cyflwyno ‘methiannau derbyniol’ yn gyfaddawd a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a’r sector ehangach.
- 5.17 Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (2012) mai ychydig o landlordiaid oedd yn gallu rhoi data manwl i Lywodraeth Cymru am weithredu’r meini prawf ‘methiannau derbyniol’ ac roedd adborth gan landlordiaid yn dynodi nad oedd dealltwriaeth glir a chyson ymhlith landlordiaid o sut y dylai ‘methiannau derbyniol’ gael eu dehongli a’u cofnodi.
- 5.18 Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o eglurder a chyfarwyddyd ar ddosbarthu ‘methiannau derbyniol’, ac mae manteision y cyfarwyddyd yma yn cael ei gadarnhau yn y data; gydag awdurdodau lleol er enghraifft yn dangos mwy o nifer o ‘fethiannau derbyniol’ yn benodol o ran dosbarthiad cydymffurfio ceginau ac ystafelloedd ymolchi o 2014 ymlaen.
- 5.19 Cydnabu Llywodraeth Cymru bod ‘methiannau derbyniol’ yn cael eu hystyried yn risg gynyddol i’r rhaglen a’u bod yn monitro a gweithio tuag at ddealltwriaeth gliriach a mwy cyson o sut y mae ‘methiannau derbyniol’ yn cael eu hasesu.
- 5.20 Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fonitro ‘methiannau derbyniol’ o ran pa mor resymol ydyn nhw, a gwella ansawdd y data, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi

cyngor ar gyfer sefydlu ystyriaeth deg a chyson gan ddefnyddio'r codau rhesymau 'cost y datrysiad' ac 'amseriad y datrysiad', sy'n cael eu trin fel 'methiannau derbyniol' i liniaru symud i mewn ac allan o gydymffurfio yn gyffredinol ar lefel sefydliad.

Adolygiad data a chyd-destun SATC


- 5.21 Amcangyfrifodd arolwg eiddo Byw yng Nghymru 2004⁴⁵ bod 0.8% o'r holl dai cymdeithasol yn cyrraedd SATC. Canfu'r Arolwg bod 2.7% o gartrefi Cymdeithasau Tai yn cyrraedd SATC, heb unrhyw eiddo awdurdod lleol yn cyrraedd SATC. Canfu arolwg eiddo Byw yng Nghymru 2008 mai dim ond 6% o dai cymdeithasol oedd yn cyrraedd y safon.⁴⁶
- 5.22 Canfu'r adroddiad, Mesur cynnydd wrth wella tai cymdeithasol yng Nghymru (Diwygiedig) Mawrth (2011), bod cyfartaledd cydymffurfiaid stoc tai cymdeithasau tai ar gyfer SATC yn 2009/10 yn cyfateb i 35%. O ran stoc tai awdurdodau lleol, roedd cyfartaledd y cydymffurfio yn 2009/10 yn 15%.
- 5.23 Ar sail ffigyrau a gofnodwyd yn swyddogol gan Ystadegau Cymru yn cychwyn yn 2011/12, roedd stoc tai awdurdodau lleol yn cyfateb i 21.6% a LCC yn dangos 39.9% yn cydymffurfio.
- 5.24 Mae'r ganran gydymffurfio gyffredinol (PoC) gyda SATC wedi cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2012 a 2019 (gweler Ffigwr 5.1). Y gyfradd dwf ar gyfartaledd o ran cydymffurfio yw 11.23% yn ystod y cyfnod o 7 mlynedd gyda'r cynnydd mwyaf sylweddol i'w weld yn ystod 2012-2013. Ar ddiwedd Mawrth 2019, roedd 68.7% o stoc tai cymdeithasol yn cydymffurfio'n llawn â SATC⁴⁷ mewn cymhariaeth â 32.6% o stoc yn cydymffurfio'n llawn yn 2012. Mewn ffigyrau pur, roedd 155,938 o gyfanswm y portffolio tai cymdeithasol o 227,083 yn cyrraedd y lefel gydymffurfio'n llawn ym Mawrth 2019.

⁴⁵ Uned Ddata, 2004, Byw yng Nghymru, Arolwg 2004, Astudiaeth Ymchwil Adroddiad Technegol Arolwg Eiddo a Gynhaliwyd i'r Uned Ddata, Mawrth - Hydref 2004. Astudiaeth Rhif 7201 Archif UK Data

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, 2010, Arolwg Byw yng Nghymru: 2008

⁴⁷ Mae cydymffurfiaid llawn yn cyfeirio at eiddo lle mae SATC yn cael ei gyflawni ar gyfer yr holl elfennau unigol.

Ffigwr 5.1 Canran y cydymffurfio, ‘methiannau derbyniol’ a pheidio â chydymffurfio (2011-2019)



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.

- 5.25 Mae'r ganran o 'fethiannau derbyniol' ar gyfer holl elfennau'r adeilad wedi bod yn tyfu'n sylweddol yn ystod y cyfnod 2011 i 2019 ar gyfer stoc a reolir gan awdurdodau lleol a LCC. Gwelodd y cyntaf gynnydd mwy trawiadol yn y ganran, o 1.65% i 26.08%, dros y cyfnod o 8 mlynedd. Gellid rhagweld hyn o ystyried bod awdurdodau lleol wedi cychwyn gyda phortffolio mwy sylweddol o stoc nad oeddynt yn cydymffurfio a bydd methiannau derbyniol yn cynyddu trwy gydol y rhaglen waith.
- 5.26 Ar ddiwedd Mawrth 2019, roedd 24.5% arall o stoc tai cymdeithasol yn cydymffurfio yn amodol ar 'fethiannau derbyniol'. Wrth gynnwys 'methiannau derbyniol' gyda'r stoc sy'n cydymffurfio'n llawn mae'n golygu bod ychydig dros 93% (211,493 uned) o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru wedi llwyddo i gyrraedd y Safon ar ddiwedd Mawrth 2019.
- 5.27 Ar sail ffigyrau Mawrth 2019, roedd 6.9% o'r stoc (15,590 uned) yn parhau i beidio cydymffurfio â SATC. Er nad yw'n nifer ansylweddol dylid nodi bod 58.5% o stoc tai cymdeithasol yn cael ei ystyried yn peidio â chydymffurfio ar ddiwedd Mawrth 2012. Dyma fodd i ddangos y newid sylweddol mewn cydymffurfiaid – er bod cyfarwyddyd gwell yn amlwg am feini prawf 'methiannau derbyniol' ar hyd yr amser wedi arwain


at weld nifer o'r eiddo oedd yn cael eu dosbarthu fel rhai nad oedd yn cydymffurfio yn y gorffennol yn symud i'r dosbarthiad 'cydymffurfio ar sail 'methiant derbyniol'.

- 5.28 Mae lefel y peidio â chydymffurfio ar ei fwyaf ymhlith portffolios awdurdodau lleol gyda 15.6% (13,629 uned) o stoc yn dal ddim yn cydymffurfio â SATC ar ddiwedd Mawrth 2019. Mewn cyferbyniad, roedd 1.4% o stoc LCC yn parhau i beidio â chydymffurfio ar ddiwedd Mawrth 2019. Yn gyffredinol mae'n amlwg bod cynnydd sylweddol ar ymdrin â lefelau stoc nad yw'n cydymffurfio, o ystyried bod lefel y stoc nad oedd yn cydymffurfio yn 58.5% yn y flwyddyn ddata sail 2011-12 yn cynnwys 77% o'r stoc awdurdod lleol cyffredinol a 46% o gyfanswm stoc LCC.

Dadansoddiad Cydymffurfio â SATC yn ôl y Math o Ddarparwr Tai

- 5.29 Dangosodd LCC lefelau uwch o gydymffurfio â SATC yn gyson na'u cymheiriaid yn yr awdurdodau lleol (gweler Ffigwr 5.2). Ond, fel yr amlygwyd yn yr adran flaenorol, roedd gan LCC nifer uwch o stoc yn cydymffurfio'n llawn yn y flwyddyn sail 2011-12. Bu cyrraedd lefelau cydymffurfiad llawn ar draws awdurdodau lleol yn daith drawsnewid fwy maith. Ond, dengys y lefelau cydymffurfio cyffredinol ar draws y gyfres amser bod awdurdodau lleol wedi bod yr un mor weithredol wrth lwyddo i gael eu stoc i gydymffurfio. Gwelodd awdurdodau lleol gynnydd yn y cydymffurfiad o 36.7%, gyda LCC yn dangos 35.3%.

Ffigwr 5.2 Cydymffurfio â SATC fel canran o'r stoc i gyd (awdurdodau lleol vs landlordiaid cymdeithasol cofrestredig)




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.

- 5.30 Ymhlith awdurdodau lleol, roedd cyfraddau'r cydymffurfio yn amrywio'n fawr, o 35.6% i 90.3% yn cydymffurfio â SATC ar ddiwedd Mawrth 2019⁴⁸. Gellir tadogi'r amrywiaeth yma o ran cydymffurfio i nifer o ffactorau, gan gynnwys amrywiadau mewn dyddiadau dechrau ymhlith awdurdodau lleol o ganlyniad i drosglwyddiadau stoc, parodrwydd tenantiaid i dderbyn ac ewyllys gwleidyddol, a roddir fel rhesymau am yr oedi wrth i rai awdurdodau lleol gynyddu'r cyfraddau cydymffurfio â SATC⁴⁹.
- 5.31 Yn hanesyddol roedd y rhai nad oeddent yn LSVT yn dangos canran uwch o gydymffurfiaid na'r LSVT, yn gyson yn uwch na 60% yn ystod cyfnod yr ymchwiliad. Llwyddodd LSVT i weld gwelliant sylweddol yn eu lefel cydymffurfio gyda'r ganran yn chwyddo o 19.13% yn 2012 i 73.81% yn 2019 (Ffigwr 5.3).

⁴⁸ Yn seiliedig ar ddata hyd ddiwedd Mawrth 2019

⁴⁹ Yn seiliedig ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru

Ffigwr 5.3 Canran gydymffurfio hanesyddol: LSVT yn erbyn rhai heb LSVT



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.


Cydymffurfio â SATC ar draws elfennau adeilad unigol

- 5.32 Mae archwilio cydymffurfio â SATC ar draws elfennau amrywiol yr adeiladau yn cynnig dealltwriaeth ystyrlon o strategaethau ymateb LCC ac awdurdodau lleol⁵⁰.
- 5.33 Yn ychwanegol, mae archwilio cydymffurfiad o ran elfennau unigol yn cynnig gwell dealltwriaeth o waith adfer. Mae hyn yn cynnwys sut y mae gwaith cyfalaf y gellir ei dadogi â chydymffurfio â SATC yn cyd-fynd â'r cylchoedd adnewyddu a chynnal a chadw confensiynol a sut y mae ffactorau fel cost cyfalaf y gwaith ôl-osod cysylltiedig yn chwarae rhan mae'n debyg yn llinell amser cydymffurfio â SATC.
- 5.34 Larymau Mwg ar y Cyflenwad Trydan sy'n dangos y lefel uchaf o ran cydymffurfio (99.8%) ar ddiwedd Mawrth 2019, ac yna Drysau Allanol (97.4%) a Systemau Gwres Canolog (96.9%). Gerddi a Storfeydd Allanol ac Ystafelloedd Ymolchi sy'n dangos y lefel isaf o gydymffurfiaeth, y ddau dan 90% (gweler Ffigwr 5.4).

⁵⁰ Adolygir cydymffurfiad â SATC o ran elfennau unigol adeilad yng nghyswllt deg elfen benodol sef: Ystafelloedd ymolchi, Ceginau, Ffenestri, Drysau Allanol, Larymau Mwg ar y Cyflenwad Trydan, Toeau ac elfennau cysylltiedig, Systemau Trydanol, System Gwres Canolog, Cyfradd Ynni, Gerddi a Storfeydd Allanol.

5.35 Fel y nodir uchod ym mharagraff 5.26, roedd cyfradd gyffredinol cydymffurfio â SATC ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru ar tua 93% ym Mawrth 2019, pan gynhwysir methiannau derbyniol. Mae gwahaniaethau yn lefelau'r cydymffurfio â SATC awdurdodau lleol a LCC, gyda LCC yn gyffredinol yn dangos lefel uwch o gydymffurfio, yn arbennig o ran Gerddi a Storfeydd Allanol (78.9% vs 88.2%) a Chyfradd Ynni (82.6% vs 90.1%) (Ffigwr 5.4). Efallai y gellir esbonio hyn trwy ofnion llywodraethu gwahanol y gwahanol fathau o sefydliadau, gwahaniaethau yng nghyflwr gwreiddiol y stoc, a ffactorau eraill allai ddylanwadu. Dylid nodi hefyd bod y bwlch rhwng y ddau fath o landlord wedi lleihau yn gyson rhwng 2013 a 2019⁵¹, gan awgrymu bod yr heriau cychwynnol oedd yn wynebu awdurdodau lleol yn cael eu goresgyn.

Ffigwr 5.4 Cydymffurfio â SATC yn ôl elfen o'r adeilad



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur o ddata yn deillio o Ystadegau Cymru.


Nodiadau: ym Mawrth 2019. Mae Cymru Gyfan yn cyfeirio at y cyfartaledd ar gyfer yr holl landlordiaid cymdeithasol. Mae LSVT yn cael eu cynnwys dan LCC.

5.36 Mae'n werth nodi bod lefelau cydymffurfio Ystafelloedd Ymolchi (+27%), Ceginau (+22%), Systemau Trydanol (+19%), ac, i raddau llai, Cyfradd Ynni (+17%) wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod o 7 mlynedd diwethaf yng Nghymru. Mae'r un

⁵¹ Llywodraeth Cymru, 2019, Safon Ansawdd Tai Cymru, ar 31 Mawrth 2019 Datganiad Ystadegol Cyntaf

sylw yn wir pan fydd awdurdodau lleol a LCC yn cael eu harchwilio yn unigol (Ffigwr 5.5).

Ffigwr 5.5 Cydymffurfriad amrywiol elfennau o'r adeilad (Ym Mawrth 2012)



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur o ddata yn deillio o Ystadegau Cymru.

Nodiadau: ym Mawrth 2019. Mae LSVT yn cael eu cynnwys dan LCC.

- 5.37 Wrth symud ymlaen, mae'n ymddangos mai o ran perfformiad ynni y mae mwyaf o le ar gyfer gwelliant pellach wedi ei dargedu gyda'r data ar ddiwedd Mawrth 2019 yn dynodi bod tua 10% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i beidio â chydymffurfio â'r 'Gyfradd Ynni' SATC. Mae'r her o wella perfformiad ynni yn fwyaf difrifol yn y portffolios awdurdod lleol lle'r oedd tua 17% o'r stoc yn methu cydymffurfio â SATC.
- 5.38 Mae'n ymddangos mai Gardd a Storfeydd Allanol sy'n ymddangos yn fwyaf problematig o safbwynt eu cyflawni. Ar sail y data hyd ddiwedd Mawrth 2019, 88% o'r holl stoc tai cymdeithasol oedd yn cydymffurfio â SATC. Ond, yn y portffolios yn nwylo awdurdodau lleol, roedd lefel gyffredinol y cydymffurfio gryn lawer yn is ar 79% sy'n golygu bod 21% o stoc awdurdodau lleol wedi methu cyrraedd SATC ar gyfer yr elfen hon.

- 5.39 Amlygodd tystiolaeth gan gyfranogwyr yn yr ymchwil hwn bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi ymgynghori â'u tenantiad am y drefn y byddai gwaith yn cael ei wneud ac o ganlyniad roedd gwaith mewnol wedi cael blaenoriaeth⁵².
- 5.40 Mae'r awdurdodau hynny sy'n dal i weithio tuag at gydymffurfio o ran darpariaeth Gerddi a Storfeydd Allanol hefyd wedi wynebu heriau sydd wedi effeithio ar y dyddiad cau cydymffurfio gan gynnwys diffyg contractwyr â chymwysterau addas. Er gwaethaf hynny rhagwelir y bydd y cydymffurfio wedi cynyddu gan fod gwaith allanol wedi gallu parhau trwy gydol y Pandemig, gan i adnoddau gael eu hailgyfeirio i'r meysydd hyn yng nghanol cyfyngiadau pellter cymdeithasol a'r anallu i gynnal rhaglenni gwaith mewnol.
- 5.41 Daw i'r amlwg o ddadansoddi'r data bod SATC wedi chwarae rhan sylfaenol bwysig wrth wella ansawdd tai yn gyffredinol yng Nghymru. Mae Tabl 5.1 yn darlunio lefel y cydymffurfio â SATC o'r cyfnod 2011/12 hyd 2018/19.

⁵² Dylid nodi nad yw'r canfyddiadau wedi eu trionglu na'u profi tu hwnt i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil.

Tabl 5.1 Cynnydd yn y cydymffurfiad â SATC 2011/12 – 2018/19*

Elfen	Y Cyfan	ALI	LCC
Ystafelloedd ymolchi	28.5%	25.2%	30.5%
Systemau Gwres Canolog	20.0%	25.9%	16.1%
Systemau Trydanol	20.1%	17.7%	21.6%
Cyfradd Ynni	18.1%	12.5%	21.6%
Drysau Allanol	7.8%	5.3%	9.3%
Gerddi a Storfeydd Allanol	15.8%	7.6%	20.8%
Ceginau	29.6%	34.9%	25.9%
Toeau ac Elfennau Cysylltiedig	8.1%	8.1%	8.0%
Larymau Mwg ar y Cyflenwad Trydan	8.3%	9.9%	7.3%
Ffenestri	3.4%	-1.6%	6.6%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.

*Nodiadau'r tabl: *Wedi ei fynegi fel % o'r daliadau stoc cyffredinol.*

- 5.42 Mae'r data yn Nhabl 5.1 yn dangos y cynnydd sylweddol a wnaed wrth wneud stoc ceginau ac ystafelloedd ymolchi i gydymffurfio â SATC dros y gyfres amser wyth mlynedd. O'r stoc tai cymdeithasol cyffredinol, mae'r cydymffurfio â SATC ar gyfer ceginau ac ystafelloedd ymolchi wedi cynyddu o 29.6% a 28.5% yn eu tro ar ddiwedd Mawrth 2019 mewn cymhariaeth â diwedd Mawrth 2012. Gwelwyd cynnydd nodedig hefyd tuag at SATC dros y cyfnod o amser yn y systemau gwres canolog, systemau trydanol ac i raddau llai ar gyfraddau ynni.
- 5.43 Yn ôl y ffigyrau diweddaraf (2018-2019), ar y lefel gyffredinol, ystafelloedd ymolchi, ceginau a systemau graddfa ynni sydd wedi gweld y lefel uchaf o 'fethiannau derbyniol', gan ddangos canrannau o 9.61%, 9.47% ac 8.22% yn eu tro. Ar y llaw arall, larymau mwg, toeau a ffenestri sydd wedi dangos y ganran isaf o fethiannau dros yr un cyfnod (Tabl 5.2).


Tabl 5.2: Y ganran o ‘fethiannau derbyniol’ (2018-2019)

	Cyfanswm		Cyfanswm Awdurdodau Lleol		Cyfanswm LCC	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Y cyfan	55,555	24.46%	22,757	26.08%	32,798	23.45%
Ystafelloedd ymolchi	21,820	9.61%	11,916	13.66%	9,904	7.08%
Systemau Gwres Canolog	4,712	2.08%	2,045	2.34%	2,667	1.91%
Systemau Trydanol	6,186	2.72%	3,470	3.98%	2,716	1.94%
Systemau Cyfradd Ynni	18,666	8.22%	11,254	12.90%	7,412	5.30%
Drysau Allanol	1,452	0.64%	254	0.29%	1,198	0.86%
Gerddi a Storfeydd Allanol	17,085	7.52%	8,736	10.01%	8,349	5.97%
Ceginau	21,497	9.47%	12,155	13.93%	9,342	6.68%
Toeau	1,684	0.74%	506	0.58%	1,178	0.84%
Synwryddion Mwg	427	0.19%	172	0.20%	255	0.18%
Ffenestri	4,415	1.94%	384	0.44%	4,031	2.88%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.

5.44 Dangosodd awdurdodau lleol gynnydd sylweddol yn y ganran o ‘fethiannau derbyniol’ ar gyfer nifer o elfennau tai dros y cyfnod 2011 – 2019 (Ffigwr 5.6), gan gynnwys ystafelloedd ymolchi (o 3.04% i 13.66%), systemau cyfradd ynni (o 0.66% i 12.9%), gerddi a storfeydd allanol (o 2.19% i 10.01%) a cheginau (o 3.08% i 13.93%).

Ffigwr 5.6 Canran o 'fethiannau derbyniol' (holl elfennau'r adeilad)




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.

*Nodiadau: *Wedi ei fynegi fel canran o'r holl stoc*

- 5.45 Ystafelloedd ymolchi a cheginau sy'n arddangos y ganran uchaf o dwf mewn dosbarthiad 'methiannau derbyniol' ymhlith awdurdodau lleol dros y cyfnod o wyth mlynedd rhwng 2011/12 a 2018/2019 (Ffigwr 5.7). Mae'n ymddangos bod y cylch cynnal a chadw a 'dewis tenantiaid' yn cyfuno i gyfrannu at y lefel uchel o ddsbarthiadau 'methiannau derbyniol' yn yr elfennau Cegin ac Ystafelloedd Ymolchi.
- 5.46 Mewn cyferbyniad, dangosodd rhai elfennau o adeiladau, gan gynnwys drysau allanol, toeau, larymau mwg a ffenestri, ganran gymharol isel o 'fethiannau derbyniol' (dan 3.0%) trwy gydol cyfnod yr ymchwiliad.

Ffigwr 5.7: ‘Methiannau derbyniol’ awdurdodau lleol ar gyfer elfennau ystafell ymolchi a chegin



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r awdur ar sail data gan Ystadegau Cymru.

Gwariant cyfalaf a chydymffurfio â SATC

- 5.47 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru feini prawf newydd ar gyfer yr MRA yn 2008, a nododd bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod â chynllun busnes hyfyw i gyrraedd a chynnal SATC, neu fod wedi ymroi mewn ffordd arall i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael neu 'Werth am Arian' – er nad oes fframwaith gwerth am arian na gwybodaeth am sut y dylai hwn gael ei feincodi.
- 5.48 Mae gwerth am arian yn faes sy'n parhau yn gymharol anhysbys o ran SATC. Mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael i gysylltu gwariant cyfalaf a chyrraedd SATC gyda gwerth am arian.
- 5.49 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithredu monitro ar lefel y buddsoddiad SATC a'r cyllid cyfalaf. Mae cyllid MRA a Gwaddol yn seiliedig ar adroddiadau SATC i Lywodraeth Cymru a chynlluniau busnes Cyfrif Refeniw Tai blyneddol sy'n cadarnhau dosbarthu cyllid cyfalaf gan ddefnyddio cymeradwyaeth weinidogol.

- 5.50 Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at y gwariant cyfalaf ar draws yr holl ardaloedd awdurdod lleol o'r flwyddyn ariannol 2004/05 hyd 2020/21 yn cyfateb i £1.7 biliwn. Mae hyn yn cael ei dorri i lawr i gyllid MRA o £1.2 biliwn gyda'r cyllid Gwaddol yn £506 miliwn.
- 5.51 Roedd cyfanswm gwariant awdurdodau lleol ar SATC rhwng 2016/17 a 2019/20 yn cyfateb i £900.2 miliwn. Yn yr un cyfnod, roedd cyfanswm y cyllid MRA yn cyfateb i £241.6 miliwn neu 27% o'r holl wariant SATC rhwng 2016/17 a 2019/20.
- 5.52 Dengys amcangyfrifon blwyddyn ariannol diweddar ar gyfer 2020/21⁵³ bod y cyllid a ddyrannwyd i un ar ddeg o awdurdodau lleol yn cyfateb i £60.4 miliwn, gyda chyllid i ddeg cymdeithas dai yn cyfateb i £43.8 miliwn, cyfanswm o gyllid cyfalaf o £104.2 miliwn.
- 5.53 Mae'n ymddangos bod y dadansoddiad o lefel y cyllid wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gydymffurfio yn ystod y cyfnod o amser a data trawsadrannol yr awdurdodau lleol (cyfernod cydberthyniad o 88.81% ar gyfer y data am y cyfnod o amser i gyd). Awgryma hyn bod cysylltiad cryf rhwng cydymffurfio a lefel y cyllid a ymrwymir ar hyd cyfnod y rhaglen pan fydd tystiolaeth ystadegol ar gael.

⁵³ Darparwyd gan Lywodraeth Cymru.

6. Deilliannau ac effaith

Crynodeb

- Mae mwyafrif y tenantiaid yn ystyried bod y safonau i fesur cartrefi cymdeithasol yn bwysig iawn iddyn nhw – ond, nid oedd llawer o denantiaid wedi clywed am SATC.
- Mae'r manteision i denantiaid o gyrraedd SATC yn cynnwys gwell deilliannau iechyd a lleihad mewn tlodi tanwydd gyda manteision ehangach, fel hyfforddiant, prentisiaethau a gwaith yn cael eu cyflawni ar y lefel leol.
- Amlygodd adborth diweddar gan landlordiaid y llwyddiant iddynt eu hunain a rhanddeiliaid o gyrraedd SATC ond roedd eu barn yn amrywio o ran sut y gallai SATC newid yn y dyfodol. Ond, daeth ystyriaeth o ddarparu gorchudd llawr, gwell cysylltedd digidol a thaclo datgarboneiddio'n elfennau y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth symud SATC 2.0 ymlaen.

Safbwyntiau'r tenantiaid

- 6.1 Argymhellodd adroddiad 2012 Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru annog yr holl landlordiaid i roi adroddiad i denantiaid unigol a oedd eu cartref yn cael ei ystyried yn un oedd yn cydymffurfio â SATC ac, os nad oedd, dynodi amserlen i'w wella. Ar y pryd dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru nad oedd y termau yma yn cynnig eu hunain o ran atebolrwydd priodol a dynodi bod angen cynorthwyo landlordiaid i gyfathrebu'n effeithiol gyda thenantiaid, yn neilltuol gan fod dewisiadau tenantiaid os oeddent eisiau i'w heiddo gael ei ddiweddarau yn rhan ganolog o'r meini prawf 'methiant derbyniol'.
- 6.2 Yn 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau ymchwil i agweddau tenantiaid tai cymdeithasol at SATC⁵⁴. O ran ymwybyddiaeth, canfu bod 44% o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddent wedi clywed am SATC, gyda 17.5% o denantiaid yn dweud bod ganddynt ddealltwriaeth eithaf da neu dda iawn o'r safon.
- 6.3 O ran y meini prawf i fesur tai cymdeithasol, canfu'r ymchwil:

⁵⁴ Llywodraeth Cymru, 2021, Safon Ansawdd Tai Cymru: Arolwg Tenantiaid

*‘Roedd y mwyafrif helaeth yn ystyried bod pob un o saith maen prawf SATC, y caiff cartrefi cymdeithasol eu hasesu yn eu herbyn, yn bwysig iawn (sef eu bod mewn cyflwr da; yn ddiogel; yn ddigon cynnes, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi’u hinswleiddio’n dda; bod ceginau ac ystafelloedd gwely modern ynddynt; eu bod yn cael eu rheoli’n dda; mewn amgylchedd deniadol a diogel; a hyd y bo modd yn addas i ofynion penodol yr aelwyd’.*⁵⁵

- 6.4 Dywedodd mwyafrif mawr o’r ymatebwyr y byddent yn fodlon neu yn fodlon iawn i waith mân a sylweddol gael ei gynnal yn eu cartrefi ar gyfer diben gwella effeithlonrwydd ynni.
- 6.5 Mae’n amlwg hefyd, o’r adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru (am Ynys Môn, Powys, Sir y Fflint yn 2018 er enghraifft⁵⁶) am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth bod ymwneud tenantiaid, ymgysylltu â nhw a’u bodlonrwydd ar raglenni SATC wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol.
- 6.6 Dangosodd adroddiadau ar bwnc iechyd a lles a sut y mae cyflwr ac ansawdd tai yn effeithio ar y rhain bod gwell tai yn gwella iechyd pobl, lleihau anghyfartaledd iechyd ac yn lleihau effaith amodau tai gwal ar wasanaethau iechyd. Amlygodd adroddiad yn 2019⁵⁷ y cysylltiad rhwng tai gwael ac iechyd a bod i hyn gost fesuradwy, a amcangyfrifir ar fwy na £95.0 miliwn y flwyddyn. Yn ychwanegol, mae effeithlonrwydd ynni gwael yn arwain at fod yn rhy oer a chyflyrau iechyd cysylltiedig yn ogystal â chaledi ariannol a thlodi tanwydd.

Manteision ehangach

- 6.7 Yn ychwanegol at y buddsoddiad i wella eu cartrefi roedd llawer o landlordiaid cymdeithasol yn ceisio cyflwyno set ehangach o fanteision er enghraifft o ran hyfforddiant, prentisiaethau a chyflogaeth yn lleol. Roedd hyn yn ceisio gwneud y mwyaf o’r cyfleoedd adfywio economaidd yr oedd y buddsoddiad yn eu cynnig. Crëwyd prosiectau fel y pecynnau offer Can Do i2i (Gwybodaeth i Gynnwys) (a lansiwyd yn 2009) i gefnogi landlordiaid cymdeithasol i wneud y mwyaf o’r cyfleoedd

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, 2021, Safon Ansawdd Tai Cymru: Arolwg Tenantiaid (Crynodeb)

⁵⁶ Swyddfa Archwilio Cymru, Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau – Safonau Ansawdd Tai Cymru – Ynys Môn, 2018; Cyngor Sir Powys, 2018; Cyngor Sir y Fflint, 2018

⁵⁷ BRE, Cartrefi Cymunedol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019, Gwneud Gwahaniaeth i Dai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi – crynodeb, adroddiad a ffeithlun

yma trwy'r broses gaffael, gyda, er enghraifft, recriwtio a hyfforddiant wedi eu targedu. Ym Mawrth 2012 adroddwyd bod y dull hwn wedi gweld 26 o landlordiaid yn creu 2,581 o swyddi a chyfleoedd hyfforddi⁵⁸. Yn 2014 nododd adroddiad i2i '5 years on'⁵⁹ bod cyfanswm y nifer o bobl a gefnogwyd i hyfforddiant a/neu waith wedi mynd tu hwnt i 5,000 gyda chyfanswm o 5,130 o gyfleoedd recriwtio a hyfforddi wedi eu targedu wedi eu sicrhau ers 2009.

Rhoi gwerth ar effaith

- 6.8 Rhoddodd yr adborth o weithdai landlordiaid a gynhaliwyd yn 2020 gan Lywodraeth Cymru gipolwg ar farn oedd yn dangos yr her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth ddiwygio SATC. Cynhaliwyd wyth o weithdai rhithwir gan Lywodraeth Cymru ym Mai a Mehefin 2020 gyda 72 o gynrychiolwyr yn bresennol i gyd a chafwyd adborth ar-lein yn dilyn hynny. Diben y gweithdai oedd sicrhau bod barn landlordiaid wedi cael ei gasglu a'i ddeall.
- 6.9 Roedd y farn a fynegwyd gan landlordiaid yn yr ymarfer hwn yn amrywiol iawn. Roeddent yn gallu diffinio llwyddiant i'w sefydliadau a'u rhanddeiliaid. Roedd y mwyafrif yn gwerthfawrogi'r cyfarwyddyd, er gwaethaf y rhyddid i ddehongli. Roedd cydymffurfio a dilysu yn cael eu gweld yn gadarnhaol ac yn gynyddol bwysig. Roedd rhestr hir o awgrymiadau am sut y gall SATC newid yn y dyfodol, beth ellid ei ychwanegu a'i dynnu i ffwrdd o ran y gofynion. Roedd y farn am lefel y presgripsiwn a'r cwmpas yn gwahaniaethu. Roedd adborth ar faterion fel y term 'methiant derbyniol', dulliau gwahanol ac adrodd ar lefel unigol.

Elfennau ychwanegol posibl

- 6.10 Dynodwyd tri ychwanegiad/gwelliant penodol i SATC – lloriau, band eang a chamau datgarboneiddio. Amlinellir y ddau gyntaf isod tra bydd y bennod nesaf yn archwilio'r materion yn ymwneud â datgarboneiddi'n fanwl.

Gorchudd llawr

- 6.11 Mae'r effaith i denant sy'n dod i mewn o ran diffyg gorchudd llawr tu hwnt i'r gegin a'r ystafell ymolchi (fel sy'n cael ei nodi yn y SATC ar hyn o bryd) wedi cael ei

⁵⁸ Cynhadledd Flynyddol CIH, 2012

⁵⁹ i2i, 2014, 5 years on

drafod gan TPAS Cymru a Tai Pawb⁶⁰ yn ogystal â Sefydliad Bevan⁶¹ sydd wedi dynodi'r effaith ar iechyd a lles tenantiaid a'u plant (sydd yn aml yn byw am flynyddoedd lawer heb orchudd llawr) yn ogystal â chanlyniadau ariannol i denantiaid o orfod dod o hyd i gostau darparu lloriau ar ddechrau tenantiaeth. Dynododd landlordiaid yn y gweithdy a gynhaliwyd yn 2020 ac ar gyfer yr asesiad cyfansymiol hwn rai heriau ymarferol os yw gorchudd llawr yn cael ei gynnwys yn y fersiwn newydd o SATC: er enghraifft, cyllid, perchenogaeth, atebolrwydd am gynnal a chadw, a beth sy'n digwydd wrth ailosod.

Band eang

- 6.12 Dynodwyd gwaith i alluogi darparu band eang i denantiaid fel rhywbeth sy'n adlewyrchu'r defnydd presennol o dai cymdeithasol. Fe'i dynodwyd yr un mor bwysig â chyfleustodau fel dŵr a thrydan. O ran iechyd, lles, addysg, cyfathrebu, cyswllt ac (yn arbennig yn 2020/21 yn ystod pandemig) diogelwch, mae gallu cael gwasanaeth band eang effeithiol yn cael ei weld yn gynyddol fel ffordd o daclo allgauedd cymdeithasol ac economaidd. Mae landlordiaid wedi dynodi nifer o heriau i'w hystyried wrth hwyluso cyswllt band eang, ond gall fod, er mwyn gallu trin tenantiaid yn deg yn y cartrefi presennol a rhai newydd (lle mae darpariaeth ar gyfer cyswllt) efallai y bydd angen i fersiwn nesaf SATC ymgorffori eitem ar hyn.
- 6.13 Byddai hyn yn gyson â Strategaeth Ddigidol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar⁶². Mae'r Strategaeth Ddigidol yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi cyfle cyfartal o ran mynediad at gyfathrebu digidol ac un genhadaeth ganddi yw,
- “Rhoi yr ysgogiad, y mynediad y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu gyda byd sy'n fwyfwy digidol, yn seiliedig ar eu hanghenion”.*
- 6.14 Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o grwpiau sydd i gael blaenoriaeth i ddatblygu sgiliau digidol sylfaenol a hyder. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys, “.... *pobl hŷn, pobl anabl, y diwaith a'r economaidd anweithgar a thrigolion tai cymdeithasol.*” Byddai cynnwys darpariaeth band eang – neu rywbeth cyfatebol – yn SATC 2.0 felly yn cael ei gefnogi gan bolisi cenedlaethol.

⁶⁰ TPAS Cymru a Tai Pawb, 2020, Floored – Provision of appropriate flooring in social housing

⁶¹ Bevan Foundation, 2020, Solving Poverty: Reforming help with housing costs

⁶² Llywodraeth Cymru, 2021, Strategaeth Ddigidol i Gymru

7. Datgarboneiddio

Crynodeb

- Ym Mawrth 2021, deddfodd Llywodraeth Cymru ar gyfer targed sero net carbon erbyn 2050; a chymeradwywyd targed o 63% o ostyngiad mewn carbon erbyn 2030 a gostyngiad o 89% erbyn 2040 hefyd gan Senedd Cymru.
- Mae'r her o ddatgarboneiddio cartrefi, a chartrefi cymdeithasol presennol yn neilltuo, mewn ffordd na fydd yn cynyddu tlodi tanwydd, yn un sylweddol. Byddai datgarboneiddio'r grid ar ei ben ei hun, heb welliannau i gartrefi yn debygol o gynyddu costau ynni a thrwy hynny dlodi tanwydd.
- Cyfeiria ymchwil at yr angen i dai cymdeithasol gael cyfradd SAP o 92 neu uwch (neu fesur cyfatebol) trwy gyfuniad o systemau gwresogi wedi'u datgarboneiddio, gwella ffabrig yr adeiladau ac elfennau adnewyddadwy, y bydd y gymysgedd ohonynt yn benodol ar gyfer pob cartref.
- Mae cyflawni'r agenda hon trwy'r rhaglen SATC yn cynnig llwybr clir a strwythur ar gyfer cyflawni mewn fframwaith y gellir ei fonitro.
- Bydd y safon yn gofyn am welliannau deallus i gasglu data a monitro yn ogystal â gwelliannau i gapasiti'r farchnad trwy sgiliau a deunyddiau ar gyfer y diwydiant a sefydliadau landlord.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rheidrwydd hwn ac mae wedi cyflwyno nifer o brosiectau peilot. Ei nod yw i'r targed gael ei gyflawni ar draws y stoc tai cymdeithasol erbyn 2033.
- Mae gwaith ymchwil ac ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn awgrymu y dylai gweithredu safon SATC newydd fod yn ddull mewn dau gam. Yn ystod y cam cyntaf (tua dwy flynedd) byddai'n ofynnol i landlordiaid a'r Llywodraeth, gan weithio gyda thenantiaid, baratoi ar gyfer ôl-osod stoc, gan gynnwys nodi cynllun wedi ei brisio, dynodi bylchau o ran sgiliau a chapasiti; cynnal hyfforddiant; cynhyrchu cyfarwyddyd; sefydlu systemau i gasglu data; a dynodi adnoddau.
- Yr ail gam fyddai gweithredu'r gwelliannau, ochr yn ochr â'r rhaglen RMI efallai i leihau'r gwastraff ar elfennau yn ystod eu hoes ddefnyddiol.

Cyd-destun

- 7.1 Mater sy'n dod i'r amlwg yn glir yn y llenyddiaeth fwyaf diweddar, ac y bydd y prosiect hwn yn rhoi sylw iddo, yw'r ymateb sy'n ofynnol gan landlordiaid er mwyn ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a'i oblygiadau i SATC.
- 7.2 Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd 'Net Zero: The UK's contribution to stopping global warming'⁶³, nododd Gweinidogion Cymru eu huchelgais i Gymru gyrraedd sero net o ran allyriadau erbyn 2050 ar yr hwyraf⁶⁴.
- 7.3 Argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd y dylai Llywodraeth Cymru, "ddeddfu cyn gynted ag sy'n bosibl i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050"⁶⁵ Mae'r camau cyffredinol y mae'n eu hargymhell yn cynnwys, "datgarboneiddio'r sector ynni'n llawn, trosi'n llawn i werthu cerbydau trydan a gosod systemau gwresogi carbon-isel, a datgarboneiddio gweithgynhyrchu....."⁶⁶ gan ddangos yn glir bod cartrefi a defnydd ynni domestig yn allweddol i gyrraedd y targed cyffredinol. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r targed 2050 ym Mawrth 2021 trwy Offeryn Statudol⁶⁷, gan ddwyn y targed Sero Net yn gyfraith mewn gwirionedd. Mae Chweched Gyllideb Garbon y Pwyllgor Newid Hinsawdd⁶⁸ yn haeddu sylw hefyd, a wnaeth argymhell, wrth nodi'r llwybr tuag at sero net, y dylid gweld gostyngiad o 89% mewn carbon erbyn 2040, cynnydd yn y targed allyriadau statudol presennol o 67% ac a gymeradwywyd gan Senedd Cymru ym Mawrth 2021.
- 7.4 Yng Nghymru mae rhai o'r stoc tai hynaf a lleiaf effeithiol o ran gwres yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop - mae gan gartrefi Cymru ar gyfartaledd gyfradd ynni Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) o 61 pwynt, sy'n cyfateb i Fand EPC D⁶⁹. Mae'n werth nodi y byddai datgarboneiddio'r prif gyflenwad ynni ar ei ben ei hun yn arwain yn anochel at gynydd mewn costau i ddeiliaid cartrefi. Felly, wrth fynd â'r agenda

⁶³ Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2019, Net Zero: The UK's contribution to stopping global warming

⁶⁴ Llywodraeth Cymru, 2019, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i Adroddiad Sero Net y Pwyllgor Newid Hinsawdd

⁶⁵ Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020, Adroddiad Cyngori: Y llwybr at Gymru Sero Net

⁶⁶ Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020, Adroddiad Cyngori: Y llwybr at Gymru Sero Net, td9

⁶⁷ Offeryn Statudol Cymru i Reoliadau Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rheoliadau (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 yn effeithiol o 12 Mawrth 2021

⁶⁸ Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020, Y Chweched Gyllideb Garbon: Llwybr y Deyrnas Unedig at Sero Net.

⁶⁹ Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, td 10

datgarboneiddio i gartrefi unigol rhaid gweithredu i leihau'r defnydd o ynni mewn cartrefi, i ddiogelu aelwydydd bregus a monitro tueddiadau yn y dyfodol o ran tlodi tanwydd, i sicrhau nad cynnydd sylweddol mewn tlodi tanwydd yw canlyniad prif gyflenwad ynni glanach⁷⁰.

- 7.5 Dynodir tair elfen fel rhai allweddol i ddatgarboneiddio stoc tai Cymru yn llwyddiannus⁷¹: cyflenwad ynni glanach; gwell stoc tai (gwell perfformiad); a deiliaid gwybodus.

Cyflenwad ynni glanach

- 7.6 Mae allyriadau carbon o gartrefi eisoes wedi gostwng o 40% neu fwy fe amcangyfrifir ers 1990 a “daw'r gwelliant hwn yn bennaf o gyflenwad ynni cynradd glanach”⁷². Yn wir, petai'r cyflenwad ynni yn mynd trwy 'newid trawsnewidiol'⁷³, yna “byddai'r angen i wneud newidiadau sylweddol i'r cartrefi eu hunain yn ddiangen”⁷⁴. Yn y sefyllfa hon, fodd bynnag, er mwyn ystyried cyfnodau pan fydd y galw ar ei fwyaf gallai yn dal fod angen i gartrefi leihau eu galw am ynni fel na fyddent yn mynd tu hwnt i'r capasiti yn y grid⁷⁵. “Yn ychwanegol, os oes dibyniaeth drom ar ddatgarboneiddio'r grid ond ychydig o waith gwella yn cael ei wneud ar gartrefi “fe ellid gweld cynydd sylweddol yng nghostau ynni deiliaid cartrefi, a chynnydd cyfatebol mewn tlodi tanwydd”⁷⁶. Ac yna'r deiliaid cartrefi fyddai'n wynebu rhan o leiaf o gostau gweithredu datgarboneiddio.

Stoc tai sy'n perfformio'n well

- 7.7 Ar gyfer cartrefi newydd a'r rhai sy'n bodoli, mae datgarboneiddio'n awgrymu symud oddi wrth wresogi nwy neu drydan trwy, yn bennaf, ddefnyddio pypiau gwres (ond

⁷⁰ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2019, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 2

⁷¹ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2019, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 2

⁷² Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru

⁷³ Nodir ei fod yn gyflenwad ynni glân 80%

⁷⁴ Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru

⁷⁵ ibid

⁷⁶ ibid

o bosibl trwy ddewisiadau gwresogi carbon isel eraill)⁷⁷. Heb gamau effeithlonrwydd eraill, mae'r newid hwn yn debygol o gynyddu a) y gost i'r preswylwr, b) faint o drydan a ddefnyddir i gynhesu a c) pwysau ar y grid. Mae'n hanfodol felly bod "strategaethau ôl-osod cartrefi sy'n diweddarau systemau gwresogi hefyd yn gwella ffabrig yr adeilad i safon dderbyniol, i leihau cynnydd mewn costau ynni, a rhaid i aelwydydd bregus gael eu diogelu i sicrhau na fydd cynnydd mewn tlodi tanwydd yn un o ganlyniadau sector tai glanach"⁷⁸.

- 7.8 Yn ychwanegol, gall technolegau fel Systemau Ynni Deallus, neu, os bydd problemau yn ymwneud â charbon wedi eu hymgorffori a storio mewn batris yn cael eu datrys, paneli ffotofoltaig ar y to, fod â rhan i'w chwarae gan y gallant fod yn effeithiol iawn wrth leihau biliau tanwydd, a thrwy hynny "wneud ôl-osod datgarboneiddio yn ddymunol i denantiaid"⁷⁹ a lleihau pwysau ar y rhwydwaith cyflenwi ynni⁸⁰.
- 7.9 Mae'n amlwg oddi wrth y llenyddiaeth y byddai cyrraedd cyfradd SAP o 92 neu drosodd (sy'n cyfateb i gyfradd A EPC) mewn cartrefi cymdeithasol, gan gynnwys system wresogi wedi ei datgarboneiddio, yn cynorthwyo i gyflawn targed y Llywodraeth o Sero Net erbyn 2050; lleihau'r tlodi tanwydd ar gartrefi cymdeithasol wedi eu hôl-osod trwy gynnwys gwella'r ffabrig a deunyddiau adnewyddadwy; a chynorthwyo i osgoi gormod o bwysedd ar y grid.
- 7.10 Gwnaiff Grŵp Datgarboneiddio Cartrefi Cymru'r argymhelliad, "Y dylai Cymru osod targed o Fand A EPC ar gyfer cartrefi cymdeithasol a chartrefi mewn tlodi tanwydd"⁸¹.
- 7.11 Yn amlwg mae hyn yn codi heriau technegol sylweddol, gan gynnwys bwlch mewn perfformiad (a amlygir uchod) pan na fydd camau ôl-osod yn cyrraedd y safon a ragwelwyd ac y mae "cyflenwad medrus, wedi ei hyfforddi yn angenrheidiol i sicrhau

⁷⁷ E.e., mae CCC yn argymhell yn 2019 na ddylai unrhyw dai newydd yn y Deyrnas Unedig gael eu cysylltu â'r grid nwy ond bod gwresogi carbon isel yn cael ei osod yn ei le

⁷⁸ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Datgarboneiddio stoc tai Cymru: o ymarfer i bolisi, td289

⁷⁹ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory, td 5

⁸⁰ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory, td 5

⁸¹ Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, Cam Gweithredu 2.3

bod ôl-osod yn cael ei gynllunio a'i weithredu yn iawn"⁸². Yn wir, roedd pryder am y bwlch sgiliau yn broblem fawr i randdeiliaid sy'n landlordiaid cymdeithasol oedd yn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil.

- 7.12 Wrth edrych ar y modelau ar gyfer gweithredu a'r costau y gellir eu symud ymlaen i SATC yn y dyfodol mae'n berthnasol archwilio'r adroddiad 'Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory' sy'n dynodi 14 o archdeipiau o dai i gyd (10 sy'n berthnasol i dai cymdeithasol) a phedwar dull datgarboneiddio. Dangosir y 10 archdeip tai cymdeithasol mewn gwyrdd tywyll yn Ffigwr 7.1 isod⁸³.

Ffigwr 7.1: Manylion stoc tai cymdeithasol Cymru yn ôl archdeipiau

	Tŷ Pen teras	Tŷ Canol Teras	Tŷ Tŷ Pâr	Tŷ Tŷ ar wahân	FFLAT (wedi ei adeiladu i'r diben)	Cyfanswm
cyn 1919	0%	2%	1%	0%	2%	5%
1919-1944	2%	3%	5%	0%	1%	11%
1945-1964	3%	5%	12%	0%	8%	29%
1965 – 1990	5%	7%	5%	0%	19%	36%
ar ôl 1990	1%	2%	6%	1%	9%	20%
Cyfanswm	11%	20%	29%	1%	39%	82%

Ffynhonnell: Mae'r ffigwr uchod yn atgynhyrchu data a welir yn Nhabl 5. yn Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory Adroddiad Cam 3

- 7.13 Mae'r adroddiad yn defnyddio'r archdeipiau i sefydlu astudiaethau achos y gellir archwilio gweithredu ôl-osod datgarboneiddio trwyddynt⁸⁴. Tybir bod stoc tai

⁸² Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 2, td14

⁸³ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3, Tabl 5.1

⁸⁴ Sylwer nad oedd dau archdeip wedi eu datblygu mewn astudiaethau achos (tŷ pâr 1919-1944 a phen teras 1945-1964) gan bod cysylltiad agos rhyngddynt ag astudiaethau achos eraill.

cymdeithasol yn cael eu hôl-osod yn ôl yr hyn a roddir fel ‘safon arfer gorau’⁸⁵, gan liniaru yn erbyn “y risg wirioneddol y gall datgarboneiddio gynyddu tlodi tanwydd”⁸⁶.

- 7.14 Wrth ymateb i'r adroddiad ‘Cartrefi Gwell Cymru Well Byd Gwell’ oedd yn argymhell yn benodol yng nghyswllt cartrefi cymdeithasol bod “*Raid i Lywodraeth Cymru ar unwaith wneud gwaith modelu manwl ar y costau (i) fod yn sail i weithredu cynnar yn ôl daliadaeth, archdeip a daearyddiaeth...*”⁸⁷ Lansiodd Llywodraeth Cymru Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) i brofi dulliau o ddatgarboneiddio tai yng Nghymru. Dan y rhaglen bydd tua 1,300 o gartrefi yn cael eu hôl-osod gan ddefnyddio cyfuniad o welliannau i ffabrig yr adeilad, technolegau carbon isel a sero carbon a dulliau rheoli gweithredol deallus parhaus, i gynllunio sut i fynd â phob cartref at yr ôl troed carbon isaf y gall ei gyflawni.
- 7.15 Mae’n bwysig i gynllun peilot ôl-osod Llywodraeth Cymru gynnwys defnyddio technoleg ddigidol yn y cartref i gofnodi'r defnydd o ynni ym mhob cartref ac offeryn arolwg cartref i weithredu fel math o lyfr log digidol, yn cofnodi gwybodaeth am y cartref a'r newidiadau graddol. Gallai'r offeryn hwn gael ei ddatblygu i weithio gyda chartrefi unigol, gan deilwra pecyn ar gyfer pob cartref a gweithio gyda'r tenant a'r landlord i roi dull holistaidd o ôl-osod. Gallai'r dechnoleg a'r dull cydweithredol, os byddant yn llwyddiannus, gael eu symud ymlaen i gefnogi unrhyw weithredu yn y dyfodol trwy SATC.

Deiliaid gwybodus

- 7.16 Yn amlwg bydd yr ôl-osod yn amharu ar denantiaid a bydd raid iddynt ddefnyddio system wresogi wahanol ar ôl iddi gael ei gosod. “Gall tenantiaid nad ydynt wedi ymgysylltu leihau effeithiolrwydd ôl-osod yn sylweddol” ac mae angen gwybodaeth, hyfforddiant ac ymgysylltu digonol i'r diweddariadau fod “mor effeithiol â phosibl”⁸⁸. Mewn cymhariaeth â hyn canfu Arolwg Tenantiaid SATC Llywodraeth Cymru yn 2021 y byddai “mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn fodlon neu yn fodlon iawn i waith mân (71%, n=588) a sylweddol (78%, n=641) gael ei gynnal yn eu cartrefi ar gyfer

⁸⁵ Y safonau eraill yw ‘arfer da’, ‘treftadaeth’ a ‘gwledig’.

⁸⁶ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 2

⁸⁷ Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, Cam Gweithredu 4.2,

⁸⁸ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3, t5

diben gwella effeithlonrwydd ynni”⁸⁹, (gan nodi bod yr arolwg wedi ei chynnal ar-lein ac nad yw o angenrheidrwydd yn gynrychioliadol o denantiaid Cymdeithasol Cymru yn eu cyfanrwydd).

- 7.17 Yn ei adroddiad ar gwmpas a gweithredu safon amgylcheddol bresennol SATC, nododd TPAS Cymru⁹⁰ (2008) er gwaethaf pryderon landlordiaid, y gall cynnwys tenantiaid yn y broses yn llawn greu ymrwymiad a meithrin cydweithio effeithiol rhwng preswylwyr a chyrff statudol, er budd y gymuned⁹¹. Mae cefnogaeth eang i'r dull hwn gan gynnwys gan Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi Cymru”⁹².

A all / a ddylai hyn gael ei gyflawni dan SATC?

- 7.18 Cydnabyddir bod symud gofynion presennol SATC (darparu cartrefi wedi eu gwresogi yn ddigonol, effeithlon o ran ynni ac wedi eu hinswleiddio'n dda) at darged swyddogaethol e.e., cyfradd SAP unigol yn gysylltiedig â'r amcan o ddatgarboneiddio'r stoc yn her sylweddol. Mae datgarboneiddio stoc tai Cymru yn her fwy cymhleth na'r rhaglen SATC (2002 hyd 2020). Mae dull ar sail elfennau wedi ymwreiddio yng ngweithrediadau sefydliadol llawer o Landlordiaid Tai Cymdeithasol. Mae datgarboneiddio llwyddiannus yn gofyn am ddealltwriaeth fwy holistaidd o stoc, a chamau ôl-osod wedi eu trefnu yn fwy gofalus.⁹³
- 7.19 Argymhellodd yr adroddiad, 'Cartrefi Gwell Cymru Well Byd Gwell' darged o EPC A ar gyfer cartrefi cymdeithasol yng Nghymru ac y dylai'r targed hwn gymryd lle'r gofynion perfformiad ynni presennol yn SATC.⁹⁴
- 7.20 Mae manteision taclo'r agenda yma i stoc tai cymdeithasol yn amlwg: datgarboneiddio, lleihau tlodi tanwydd, cyfraniad at well iechyd (costau cymdeithasol ac economaidd), creu swyddi, datblygu sgiliau lleol a chynnwys

⁸⁹ Llywodraeth Cymru, 2021, Safon Ansawdd Tai Cymru: Adroddiad Arolwg Tenantiaid

⁹⁰ TPAS Cymru a Groundwork Wales, 2008, Scope and Implementation of the WHQS Environmental Standard

⁹¹ TPAS Cymru a Groundwork Wales, 2008, Scope and Implementation of the WHQS Environmental Standard, td 15

⁹² Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, (Cam Gweithredu 7.1)

⁹³ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3, td 4

⁹⁴ Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell – Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, (Cam Gweithredu 7.1)

tenantiaid yn benodol. Bydd darparu hyn trwy SATC yn rhoi llwybr a strwythur clir i gyflawni mewn fframwaith y gellir ei fonitro.

- 7.21 Mae'r llenyddiaeth yn dynodi'r heriau ymarferol i landlordiaid a thenantiaid a chostau posibl cyflawni'r ddwy set o amcanion ar draws y stoc ond gyda dealltwriaeth o'r manteision amgylcheddol ehangach o gyrraedd carbon Sero Net erbyn 2050 neu'n gynharach a chyfraddau SAP llawer uwch i'r stoc. Nid yw'r llenyddiaeth yn dynodi naill ai cost unigol am hyn nac yn nodi llwybr y cytunwyd arno i gyflawni'r amcanion. Ond mae rhai awgrymiadau yn y llenyddiaeth a'r ymchwil cyhoeddedig.
- 7.22 Dengys astudiaethau achos a nodir yn ymchwil Llywodraeth Cymru yn 'Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory' gostau ôl-osod datgarboneiddio o rhwng £19,000 a £33,000 am bob annedd. Mae cafeat am y modelau cost yn yr adroddiad⁹⁵ sy'n nodi:
- a) Nid yw'r offeryn SAP yn berffaith ac mae cyfyngiadau yn anochel o'i ddefnyddio.
 - b) Gall Pymptau Gwres Ffynhonnell Aer (fel sy'n cael eu cynnwys yn yr ymchwil) gael eu disodli yn y pen draw gan systemau carbon isel eraill sy'n creu mwy o fantais.
 - c) Nid yw batris yn gysylltiedig â PV yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatgarboneiddio adeilad.
 - d) Nid yw'r astudiaethau achos o angenrheidrwydd yn defnyddio dull 'arfer gorau'.
 - e) Dadansoddwyd gwaith gan BEIS a'r Grid Cenedlaethol a chynhwyswyd eu ffactorau allyriadau a ragwelir ar gyfer 2023 yn y modelu - er nad yw'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu'r potensial pellach i ddatgarboneiddio cyflenwad ynni yn y dyfodol, ystyrir eu bod yn adlewyrchu barn resymol am yr allyriadau erbyn 2030.

⁹⁵ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3, td14

- f) Darparwyd y costau gan ymgynghorwyr costau, ond mae nifer o sefydliadau wedi amau'r rhain, yn nodweddiadol pan oedd y gwaith yn ymwneud â gwelliannau mwy cymhleth yn gysylltiedig â'r ffabrig.

7.23 Mae'r enghreifftiau astudiaeth achos yn cyflawni gwresogi wedi ei ddatgarboneiddio ochr yn ochr â'r gwelliannau ffabrig ac ynni gorau i bob math o gartref (er nad oeddent yn eu dwyn i gyd i fyny i SAP92)⁹⁶. Bydd rhai o'r costau a ddefnyddiwyd yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir uchod yn ogystal â'r cyfyngiadau amlwg ar y casgliadau y gellir eu tynnu o'r deg enghraifft, hyd yn oed os yw'r enghreifftiau hynny yn gynrychioliadol. Bydd llawer mwy o wybodaeth am gostau ar gael yn ystod y gwaith ôl-osod ORP. Ond, mae'r wybodaeth yn rhoi cyfeiriad defnyddiol a defnyddir y dystiolaeth i gymharu rhwng costau rhaglen Trwsio, Cynnal a Chadw a Gwella (RMI) a ragwelir o rhwng £2,000 a £22,000 i bob cartref⁹⁷ a chanfyddiadau costau astudiaethau achos ôl-osod. Mae Ffigwr 7.2 yn cyfuno'r canlyniadau hyn ar gyfer deg astudiaeth achos (yn seiliedig ar archdeipiau stoc) ac yn dangos y costau cymharol a'r gwelliant mewn cyfradd SAP a gyflawnwyd gan bob un. Mae'n dangos hefyd y gallai cyfran o'r costau datgarboneiddio gael eu rhoi yn erbyn y rhaglen RMI bresennol, yn wir gallai amserlen ar gyfer rhaglen ôl-osod ddatgarboneiddio eistedd yn yr RMI.

⁹⁶ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3 Pennod 6

⁹⁷ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3, Tablau 7.1 a 7.2

Ffigwr 7.2 cymhariaeth o gostau ôl-osod RMI gyda gwelliant mewn cyfraddau SAP ar gyfer archdeipiau datblygu gan ddefnyddio astudiaethau achos Llywodraeth Cymru ⁹⁸

Math	oedran	RMI a ragwelir							ôl-osod datgarboneiddio						
		SAP		Datgarb		Biliau tanwydd		Cost	SAP		Datgarb		Biliau tanwydd		Cost
		yn awr	ar ôl	yn awr	ar ôl	yn awr	ar ôl		yn awr	ar ôl	yn awr	ar ôl	yn awr	ar ôl	
Pen teras	Cyn 1919	62	91	61%	70%	£1066	£249	£22k	62	92	61%	96%	£1066	£231	£33k
Canol teras	1945-64	60	93	57%	71%	£844	£141	£19k	60	96	57%	97%	£844	£93	£31k
Tŷ Pâr	1945-64	48	91	26%	60%	£1022	£173	£18k	48	97	26%	97%	£1022	£62	£29k
Tŷ Pâr	1645-64	42	67	33%	67%	£1277	£726	£12k	42	93	33%	96%	£1277	£148	£31k
Tŷ Pâr	1965-90	84	91	61%	71%	£373	£194	£10k	84	94	61%	96%	£373	£135	£27k
Tŷ Pâr	Ar ôl '90	67	70	54%	60%	£704	£641	£7k	67	94	54%	95%	£704	£127	£28k
Fflatiau	1945-64	58	65	51%	62%	£773	£643	£8k	58	96	51%	96%	£773	£66	£25k
Fflatiau	1965-90	53	73	36%	70%	£754	£440	£8k	53	84	36%	94%	£754	£261	£19k
Fflatiau	1965-90	56	71	41%	67%	£794	£512	£8k	56	84	41%	94%	£794	£284	£22k
Fflatiau	Ar ôl '90	69	69	77%	78%	£453	£451	£2k	69	85	77%	96%	£453	£214	£19k
		60	79	51%	69%	£802	£410		60	90	51%	96%	£802	£189	

Ffynhonnell: Mae'r ffigwr uchod yn atgynhyrchu astudiaethau achos unigol a ddangosir yn Nhablau 7.1/7.2 yn 'Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory' Adroddiad Cam 3

7.24 O ran ariannu costau o'r fath, argymhellodd Grŵp Cyngori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru:

⁹⁸ Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiad cam 3, Tablau 7.1 a 7.2

- Y dylai'r cyllido ar gyfer SATC o £108 miliwn y flwyddyn gael ei barhau (Cam Gweithredu 4.2);
- Dylid canfod ateb ariannol ar gyfer LCC nad ydynt ar hyn o bryd yn derbyn adnoddau SATC (Cam Gweithredu 4.4);
- Dylid sefydlu cronfa o £100 miliwn o leiaf i dalu am ddatblygu atebion blaengar a fydd yn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru – model Rhaglen Tai Blaengar (IHP) (cam gweithredu 6.1).

7.25 Mae llwybr yn dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru i symud yr agenda datgarboneiddio ymlaen mewn tai cymdeithasol, trwy SATC. Bydd angen set glir o amcanion a phroses weithredu os yw'r targedau uchelgeisiol ar gyfer datgarboneiddio ochr yn ochr â gwelliannau i stoc tai cymdeithasol i gael eu cyflawni. Trwy ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru â'r sector tai cymdeithasol argymhellwyd safon yn cael ei arwain gan dai ar gyfer datgarboneiddio fel y trafodir uchod. Gan gynnig safon a fyddai'n cael ei fesur ac y byddai adroddiadau amdano, yn ymgorffori amserlen a dull mesur targed o SAP 92 i'w gyflawni erbyn 2032.

7.26 Mae cyfweiliadau dilynol gyda Llywodraeth Cymru⁹⁹ wedi nodi'r ffordd bresennol o feddwl a bod set o argymhellion wedi eu llunio i adeiladu ar yr agenda hon a'i symud ymlaen trwy SATC. Yr argymhellion mewnol yw (ym Mawrth 2021) cyflawni'r safon canlynol:

- (1) Cyrraedd allyriadau Carbon Sero Net gan barhau i ddarparu cartrefi y mae'n rhaid iddynt allu cael eu gwresogi yn ddigonol ar gost fforddiadwy i'r preswylwyr a chyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar Dlodi Tanwydd;
- (2) Rhaid i'r safon yma gael ei gyrraedd erbyn 2033; a
- (3) Rhaid i bob cartref ddilyn proses adolygu, gan gychwyn gydag arolwg tai PAS 2035¹⁰⁰ a pharhau gyda dull system gyfan ar gyfer pob cartref a darparu cynllun ar gyfer pob cartref erbyn 2023 – i gyrraedd y safon.

⁹⁹ Yn ystod Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2021

¹⁰⁰ Mae PAS2035 yn fanyleb sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer ôl-osod ynni anheddau domestig, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Safonau Prydain, BSI. Er nad yw'n 'safon' yn swyddogol, mae'n rhoi manylion arfer gorau gan ddefnyddio dull 'cartref cyfan' gan ystyried y cartref, yr amgylchedd, daliadaeth ac amcanion gwella'r deiliad wrth bennu'r mesurau mwyaf addas i'w gosod

- 7.27 Mae'r rhaglen RMI yn awgrymu amserlen y gellid ei gweithredu trwy SATC i gysylltu ôl-osod â gwaith cynnal a chadw a diweddaru offer arferol. Er y gallai'r amserlen ar gyfer cyfnewid system wresogi fod mor hir â 15 mlynedd, mae ganddo'r fantais o leihau gwastraff trwy gadw elfennau am eu hoes weithredol – rhywbeth oedd yn cael ei gefnogi gan landlordiaid cymdeithasol yn y gweithdy rhanddeiliaid ac a fyddai'n atal gwastraff a fyddai'n cael ei gyfri yn erbyn unrhyw arbedion carbon o elfennau newydd.
- 7.28 Ochr yn ochr â hyn, dynododd y rhanddeiliaid oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn mai dull mewn dau gam o weithredu yw'r dull gorau ganddynt o lawer. Yn ystod y cam cyntaf, yr awgrymwyd y dylai barhau am tua dwy flynedd, byddai'n ofynnol i landlordiaid baratoi ar gyfer ôl-osod stoc a byddai hyn yn cynnwys nodi cynllun wedi ei brisio o gartref i gartref; dynodi bylchau o ran sgiliau (yn sefydliad y landlord ac yn y diwydiant yn ehangach); hyfforddiant; paratoi'r farchnad o ran deunyddiau a chapasiti; sefydlu systemau i gasglu data; a dynodi adnoddau.
- 7.29 Mynegodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran ofyn clir am gyfarwyddyd llawn, y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyfrannu ato, yn ogystal â gweithdai cyson a rhwydweithio tebyg i'r sesiynau a drefnwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru am SATC.
- 7.30 Byddai'r gwaith llawn yn dechrau yng nghanol dau'r broses, a fyddai'n cael budd o'r gwersi a ddysgwyd yn yr ORP hyd yn hyn.

8. Casgliadau ac argymhellion

- 8.1 Mae pennod olaf yr adroddiad yn ymdrin â'r tri amcan i'r gwerthusiad a nodwyd ar ddechrau'r adroddiad. Casgliad cyntaf a throsfwaol y Gwerthusiad Cyfansymiol yw bod SATC wedi bod yn effeithiol wrth gyflawni ei amcan allweddol o godi safonau tai cymdeithasol ar rent yng Nghymru.

Y graddau y mae SATC wedi ei gyrraedd

- 8.2 Dangosodd yr adroddiadau amrywiol am gynnydd o ran cydymffurfio, yr adroddiadau archwilio a gwerthuso ac adborth gan denantiaid a landlordiaid, gyda'i gilydd, bod gwelliant amlwg wedi bod yn ansawdd tai cymdeithasol gyda chyflwyno SATC. Seiliwyd hyn ar yr ymgais i gyrraedd safon cyffredin, gan roi ffocws i'r strategaeth, gwella gwybodaeth am gyflwr tai cymdeithasol i gynorthwyo wrth gynllunio buddsoddiad a strategaethau rheoli asedau, gan alluogi rhagweld mwy cywir o wariant ac o ganlyniad helpu i roi blaenoriaeth i fuddsoddiadau.
- 8.3 Dangosodd adolygiad o ddata cydymffurfio bod SATC wedi bod yn allweddol wrth wella safonau ansawdd tai cymdeithasol ar draws yr ystod o ddulliau mesur y mae SATC yn eu cwmpasu. Mae hyn yn wir am y stoc a ddelir gan awdurdodau lleol a LCC gyda chydymffurfio ar 93% ar draws y stoc tai cymdeithasol ar rent.
- 8.4 Mae'n amlwg hefyd, er i SATC gael ei gyflwyno yn 2002, cyflwyno gweithdrefnau monitro a chasglu data ychwanegol, cyfarwyddyd gwell a rhoi adroddiad am ansawdd y data yn 2011 a lwyddodd i gael landlordiaid i ganolbwyntio'n fwy pendant ar gyrraedd y Safon ac i Lywodraeth Cymru asesu'r cynnydd yn realistig. Mae ymyraethau mwy diweddar (2018 ac wedyn) gan Lywodraeth Cymru i drefnu gweithdai landlordiaid a rhannu arfer da hefyd wedi bod yn bwysig wrth godi safonau - fel y nodwyd yn y gweithdy landlordiaid diweddar a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Dychwelir at werth rhannu gwybodaeth eto yn yr argymhellion isod.
- 8.5 Mae rhai elfennau o'r safon wedi bod yn 'haws' eu cyrraedd nag eraill. Wrth symud ymlaen, mae'n ymddangos mai o ran perfformiad ynni y mae mwyaf o le ar gyfer gwelliant pellach wedi ei dargedu gyda thua 10% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i beidio â chydymffurfio â'r 'Gyfradd Ynni' SATC yn 2019. O

ystyried pwysigrwydd lleihau allyriadau carbon yn y dyfodol, bydd her gwella perfformiad ynni yn un sylweddol.

- 8.6 Mae'n ymddangos bod cyrraedd y safon ar gyfer 'Gerddi a Storfeydd Allanol' ymhellach ar ôl¹⁰¹ y cynnydd a gyflawnwyd wrth gyrraedd y safonau eraill yn stoc yr awdurdod lleol. Roedd lefel gyffredinol y cydymffurfio ar 79% sy'n golygu bod 21% o stoc awdurdodau lleol wedi methu cyrraedd STAC ar gyfer yr elfen hon.
- 8.7 Trwy werthuso'r data sydd ar gael fe ddynodwyd perthynas bositif gref dros y cyfnod o amser (2012-2020) rhwng lefelau'r cyllid a chydymffurfio â SATC. Ond, nid yw'r data sydd ar gael yn rhoi cyfle i wneud asesiad manwl o'r gwerth am arian am fuddsoddiad cyhoeddus mewn cyrraedd SATC - er enghraifft os oes gwahaniaethau systematig yn y buddsoddiad gofynnol i bob cartref i gyflawni SATC ar gyfer fflatiau mewn cymhariaeth â thai neu yn ôl gwahanol fathau o landlord.
- 8.8 Mae heriau amlwg o ran rhoi adroddiadau am eich hun i SATC, gyda pheth anghysondeb wrth roi adroddiadau. Ond, mae Llywodraeth Cymru yn, cyn belled ag sy'n bosibl, archwilio unrhyw newidiadau 'amlwg' posibl wrth roi adroddiadau i liniaru gwallau wrth fesur neu roi adroddiadau.
- 8.9 Parhaodd yr ymgysylltu gweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a'r landlordiaid i gryfhau ymddiriedaeth, yn arbennig o ran casglu data a 'methiannau derbyniol'. Amlygodd adborth o'r gyfres o weithdai a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019 bwysigrwydd cyfathrebu a thryloywder. Fe wnaeth hyn wella dealltwriaeth landlordiaid a rhoi gwaelodlin cadarn ar gyfer symud y safonau ymlaen.
- 8.10 Mae 'methiannau derbyniol', er eu bod yn haws eu dehongli, yn parhau yn heriol ar gyfer rhoi adroddiad ystadegol, monitro data ac asesiadau ymarferol. Mae heriau parhaus o ran y codau rheswm gan gynnwys amseru'r datrys, cost datrys a dewis tenantiaid, yn neilltuoel o ran ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Awgryma'r dadansoddiad hwn y gall 'methiannau derbyniol' effeithio ar ddatgelu cydymffurfio â SATC, gyda thwf trawiadol mewn 'methiannau derbyniol' yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallai hyn, yn syml, adlewyrchu'r camau breision a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, trwy gyfres o weithdai, i roi eglurder ac i agor trafodaeth am yr

¹⁰¹ Dengys cyngor anffurfiol gan Lywodraeth Cymru bod hyn yn wir mae'n debygol oherwydd ei bod yn un o'r elfennau hwyraf o'r safon i gael eu tacio.

hyn sy'n gymwys i fod yn 'fethiant derbyniol', gan arwain at fwy o ddefnydd o 'fethiannau derbyniol' ond ar sail fwy cyson erbyn hyn.

- 8.11 Er mwyn gwella ansawdd data a'i ddibynadwyedd mae angen targedu mwy o fuddsoddiad a'r cyfalaf dynol, adnoddau, gallu ac archwilio i helpu i gynyddu dibynadwyedd yr hunan-gofnodi a safonau posibl yn y dyfodol.
- 8.12 Mae data rheoli asedau wedi gwella ar draws LCC a landlordiaid awdurdodau lleol yn y degawd diwethaf o ganlyniad i raglen SATC. Mae darparu data yn allweddol wrth wneud dewisiadau busnes doeth ac ar gyfer cael tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau busnes yn fewnol ac allanol. Yn ychwanegol, bydd gwella cadernid data ar lefel rheoli asedau yn allweddol wrth symud ymlaen i wella effeithlonrwydd ynni, gan fanteisio ar ddatblygiadau newydd mewn technoleg ac wrth greu llwybrau effeithiol i liniaru dwyster y carbon yn y sector tai cymdeithasol.

Allbynnau cyflawni'r safon

- 8.13 Mae'r gwelliannau yn y stoc cymdeithasol ar rent a wnaed o ganlyniad i SATC wedi cael amrywiaeth o effeithiau positif i denantiaid a'r gymuned ehangach. Er nad yw llawer o denantiaid yn adnabod SATC fel y cyfryw (rhyw ddau o bob pump o denantiaid), maen nhw yn cefnogi ei amcanion ac mae cynnwys, ymgysylltu a bodlonrwydd tenantiaid o ran rhaglenni SATC wedi bod yn gadarnhaol yn gyffredinol.¹⁰²
- 8.14 Mae cysylltiad clir, a amlygir yn yr ymchwil sy'n bodoli, rhwng ansawdd tai ac iechyd felly gellid casglu bod y gwelliannau yn ansawdd tai sy'n deillio o SATC yn rhoi manteision iechyd i denantiaid cymdeithasol yng Nghymru. Amcangyfrifodd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) bod tai o ansawdd gwael yng Nghymru yn costio mwy na £95.0 miliwn y flwyddyn i'r GIG o ran costau triniaethau blwyddyn gyntaf ac roedd y gost i gymdeithas Cymru dros £1 biliwn.¹⁰³
- 8.15 Mae asesiad ariannol tebyg ar gael o ran effaith tai gwael, heb eu hinsiwleiddio'n iawn ar dlodi tanwydd ond un o fanteision SATC a ddynodwyd yn y llenyddiaeth

¹⁰² Llywodraeth Cymru, 2021, Safon Ansawdd Tai Cymru: Arolwg Tenantiaid (Crynodeb)

¹⁰³ BRE, Cartrefi Cymunedol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019, Gwneud Gwahaniaeth i Dai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi

oedd gwell effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi tenantiaid a, gyda hyn, mwy o foethusrwydd a chostau ynni is a llai o dlodi tanwydd.¹⁰⁴

- 8.16 Yn ychwanegol at y buddsoddiad i wella eu cartrefi roedd llawer o landlordiaid cymdeithasol yn ceisio cyflwyno set ehangach o fanteision o ran hyfforddiant, prentisiaethau a chyflogaeth yn lleol. Nododd yr amcangyfrif diweddaraf (o 2014) bod cyfanswm y nifer o bobl a gefnogwyd i hyfforddiant a/neu waith wedi mynd tu hwnt i 5,000.¹⁰⁵

Argymhellion ar gyfer datblygu'r safon diwygiedig.

- 8.17 Yn ystod y gwerthusiad hwn, mae landlordiaid wedi dynodi ble y maen nhw'n gweld y potensial i wella neu fireinio'r fersiwn newydd o SATC, ond mae hyn o fewn y cyddestun y dylid cael fersiwn newydd o SATC. Dynododd landlordiaid, ac eraill ¹⁰⁶ ystod o newidiadau i Lywodraeth Cymru eu hystyried a fyddai'n helpu i esblygu SATC 1.0 i SATC 2.0. Tair eitem sydd wedi cael sylw penodol yw cynnwys gorchudd lloriau, band eang ac yn fwy arwyddocaol ohonynt, datgarboneiddio. Yn ychwanegol, mae gwersi i'w dysgu am gasglu, rheoli a rhoi adroddiad am ddata.

Lloriau

- 8.18 Nid oes argymhelliad penodol am ddarparu lloriau yn y dyfodol ond dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda landlordiaid a sefydliadau tenantiaid i ddyfeisio safon sy'n sicrhau na fydd tenantiaid sy'n symud i mewn yn wynebu'r baich o ddod o hyd i adnoddau i brynu gorchuddion llawr wrth iddynt symud i eiddo newydd. Ni ddylai'r safon y dylent ei ddisgwyl fod yn waeth nac yn well nag unrhyw eiddo cyfatebol ar rent yn y farchnad.

Band eang

- 8.19 Eto, nid oes digon o dystiolaeth ar gael i wneud argymhelliad penodol am ddarparu band eang ond rydym yn argymhell yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru gael cyngor arbenigol am y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu band eang i denantiaid; ac y dylai

¹⁰⁴ Gweler, er enghraifft, BRE, Cartrefi Cymunedol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019, Gwneud Gwahaniaeth – Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi a'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Gartrefi ac Adeiladau Iach 2020

¹⁰⁵ i2i, 2014, 5 years on

¹⁰⁶ Fel y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Gartrefi ac Adeiladau Iach, Grŵp cynghori Datgarboneiddio Cartrefi Cymru, TPAS Cymru

weithio gyda'r landlordiaid a sefydliadau tenantiaid i ddynodi safon newydd o ran darparu ar gyfer SATC 2.0.

Datgarboneiddio

8.20 O'r Gwerthusiad Cyfansymiol, sydd wedi cynnwys trafodaeth o'r syniadau presennol yn Llywodraeth Cymru, argymhellir bod dull bob yn gam o ymdrin â'r safon newydd ar gyfer SATC 2.0 yn cael ei fabwysiadu, fel y nodir isod:

- Amcanion/targed tymor hir yn cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru erbyn dyddiad cau diffiniedig;
- SATC 2.0 i sicrhau na fydd tenantiaid mewn gwaeth sefyllfa o ganlyniad i waith datgarboneiddio yn eu cartrefi ac anelu i wella lefelau moethusrwydd a gostyngiad pellach mewn tlodi tanwydd;
- Rhoi cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd i landlordiaid baratoi rhaglen wedi ei phrisio o gamau i gyflawni'r targed – gan gynnwys ymgysylltu ystyrlon â thenantiaid a dynodi bylchau mewn sgiliau a gallu i gyflawni'r rhaglen;
- Dull o fesur perfformiad yn cael ei lunio gan gynnwys diffiniad o 'fethiannau derbyniol', neu unrhyw system i'w disodli;
- Yn gyfochrog â hynny, Llywodraeth Cymru i weithio gyda landlordiaid a sefydliadau tenantiaid i ddatblygu arfer da (rhannu gwersi o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio), sefydlu systemau casglu data hollataidd deallus a monitro stoc, ochr yn ochr â strategaeth ariannu realistig;
- SATC 2.0 i ddiffinio rhaglen i gyrraedd y targed y mae landlordiaid yn cael eu monitro mewn cymhariaeth ag o;
- Gweithredu proses i adolygu cynnydd a gwneud addasiadau i'r targed, rhaglen a'r cyllid yn ôl y gofyn gyda'r adolygiad cyntaf i'w gynnal ar ddiwedd y 2 flynedd pan fydd rhaglenni'r landlordiaid yn eu lle;
- Yr ail gam fyddai gweithredu'r gwelliannau, ochr yn ochr â'r rhaglen RMI efallai i leihau'r gwastraff ar elfennau yn ystod eu hoes ddefnyddiol.

Casglu data a chyfarwyddo

- 8.21 Dylai Llywodraeth Cymru nodi dull trosfwaol o gasglu data a'i ddadansoddi ar gyfer SATC 2.0, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei werthuso cyn, yn ystod ac ar ôl i'r rhaglen gael ei gweithredu.¹⁰⁷
- 8.22 Er mwyn symud safonau ac ansawdd data wrth symud ymlaen, mae angen ymgyrch hefyd tuag at roi adroddiad am gydymffurfiaid eiddo unigol. Bydd hyn hefyd yn gwella'r potensial o wirio data ar draws a rhwng meysydd polisi perthnasol eraill a deilliannau iechyd.
- 8.23 Dylid cynnal gweithdai blynyddol gyda'r darparwyr data i ddangos sut y mae'r data a gesglir yn cael ei ddefnyddio, arfer da wrth gasglu data a'r budd cysylltiedig y mae'r dadansoddi yn ei ddwyn.
- 8.24 O ran 'methiannau derbyniol' efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried cyflwyno system 'goleuadau traffig' – i wahaniaethu rhwng eiddo a allai, gydag ymyrraeth, gyrraedd y targedau a'r rhai na fydd fyth mewn sefyllfa i gydymffurfio ar elfen benodol.
- 8.25 Wrth i SATC esblygu i gwmpasu safonau newydd a dulliau asesu ar ddatgarboneiddio yn anochel bydd bylchau yn y data a thoriadau yn y gadwyn gwerth data. Pan na ellir cael data ar lefel eiddo unigol, er enghraifft, yna dylid defnyddio dirprwyon credadwy pan fydd yn bosibl ar gyfer dibenion monitro a gwerthuso.
- 8.26 Wrth symud ymlaen, gyda'r gwariant cyfalaf sylweddol sy'n ofynnol tuag at ddatgarboneiddio a'r ymrwymiad cyfalaf parhaus sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â SATC 2.0, bydd angen cynnwys gweithdrefnau casglu data i sicrhau bod Gwerth am Arian yn cael ei fonitro a'i ddangos yn glir o ran yr arian a werir a chyrraedd SATC. Bydd angen i hyn gael ei gasglu a rhoi adroddiadau arno yn systematig i Lywodraeth Cymru gan y landlordiaid.
- 8.27 Bydd gwella ansawdd a dyfnder y data a gesglir yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol – o ran technoleg a phersonél. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda

¹⁰⁷ Mae hyn yn dilyn y cyfarwyddyd gan Drysorlys EM a nodir yn y Llyfr Magneta – Trysorlys EM, Mawrth 2020, The Magneta Book, Cyfarwyddyd Llywodraeth Ganolog ar werthuso

landlordiaid i gyflwyno systemau rheoli data ar draws y rhwydwaith o landlordiaid, gan helpu i rannu arfer da.

- 8.28 Gan adlewyrchu'r rhaglen adolygu ddwy flynedd i gamau datgarboneiddio sydd newydd eu cyflwyno a chyflwyno monitro gwerth am arian, argymhellir bod adolygiadau bob dwy flynedd o arferion casglu data a chysondeb ar draws y sector.

Cyfathrebu

- 8.29 Bydd angen i SATC 2.0 gael ei ysgrifennu mewn iaith glir a sensitif o ran y defnydd o dermau a fyddai'n dderbyniol i grwpiau yn y boblogaeth.
- 8.30 Bydd yn parhau yn bwysig i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n effeithiol gyda'r landlordiaid i symud SATC 2.0 ymlaen, gan esbonio beth mae'r safon a'r dulliau casglu data yn ei olygu a rhannu'r gwaith dehongli ac arfer da. Dylai'r rhaglen ar gyfer hyn gael ei nodi wrth i SATC 2.0 gael ei gyflwyno, gan gynnwys diweddarau'r wefan. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu grŵp cynghori technegol sefydlog i gefnogi cyflwyno SATC 2.0.

Cyfeiriadau

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2008, Decent Home: Definition and guidance for implementation, Update.

Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon, 2004, Decent Homes Standard.

Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2006, Quality and Choice: A Decent Home for All, The HGreen Paper

Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2012, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru

Bevan Foundation, 2020, Solving Poverty: Reforming help with housing costs

BRE, Cartrefi Cymunedol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019, Gwneud Gwahaniaeth i Dai ac Iechyd: Yr Achos dro Fuddsoddi – crynodeb, adroddiad a ffeithlun

Buildings Journal, 2021, Macro-impacts of air quality on property values in China, a meta-regression analysis of the literature

Cynhadledd Flynyddol CIH, 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001, Cartrefi Gwell i Bobl Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 2012, Cynnydd o ran Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru – adroddiad a thystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor

Cynulliad Cymru, 2019 - Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy, Adroddiad Terfynol

GIG, 2018, National Institute for Health Research, Health impact, and economic value, of meeting housing quality standards: a retrospective longitudinal data linkage study Public Health Research Volume 6 Issue 8

Green, E. et al, 2020, Decarbonising the Welsh housing stock: from practice to policy, Buildings and Cities, 1(1), 277–292

Grŵp Cynghori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, 2019, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru. Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Cynghori Datgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy, 2008, Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog Tai

Gweinyddiaeth Dai Gogledd Iwerddon, 2016, Northern Ireland House Condition Survey, Main Report

i2i, 2014, 5 years on

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002, Safon Ansawdd Tai Cymru, Cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol am y Broses Asesu a Chyflawni'r Safon

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, Safon Ansawdd Tai Cymru, Cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig am y Broses Asesu a Chyflawni'r Safon

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005, Byw yng Nghymru, Arolwg 2004, Astudiaeth Ymchwil Adroddiad Technegol Arolwg Eiddo a Gynhaliwyd i'r Uned Ddata, Mawrth - Hydref 2004. UK Data Archive Study Number 7201.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005, Safonau Ansawdd Tai Cymru ac Adnewyddu Tai Cymdeithasol - Adroddiad Model Costau

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru: Adolygiad Dethol

Llywodraeth Cymru pecyn gwybodaeth i landlordiaid cymdeithasol ar roi adroddiadau ystadegol

Llywodraeth Cymru pecyn gwybodaeth i landlordiaid cymdeithasol ar roi adroddiadau bodlonrwydd tenantiaid

Llywodraeth Cymru pecyn gwybodaeth i landlordiaid cymdeithasol ar ddyddiad cau SATC

Llywodraeth Cymru, 2005, Welsh Housing Quality Standard and Social Housing Renewal, Social Justice and Regeneration Research Report SJRRR 4/05

Llywodraeth Cymru, 2008, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tai Fforddiadwy, Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog Tai

Llywodraeth Cymru, 2010, Arolwg Byw yng Nghymru: 2008

Llywodraeth Cymru, 2011, Perfformiad landlordiaid cymdeithasol wrth gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru

Llywodraeth Cymru, 2012, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru, 2014, Safon Ansawdd Tai Cymru: Gwirio'r cynnydd tuag at dderbyn y Safon, 2014

Llywodraeth Cymru, 2014, Budd i'r gymuned, Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian i'r Bunt Gymreig

Llywodraeth Cymru, 2015, WHQS, Verification in achieving and maintaining the Standard – next steps, Letter to Chief Executives and Directors of Housing in local authorities, RSLs and LSVTs

Llywodraeth Cymru (Green et al), 2018, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory: Datgarboneiddio Tai Cymru rhwng 2020 a 2050. Adroddiad Cam 1: Adolygiad Cwmpasu

Llywodraeth Cymru, 2019. Cyfarwyddyd Methiannau Derbyniol

Llywodraeth Cymru, 2019. Cyfarwyddyd Codau Rhesymau

Llywodraeth Cymru, 2019, Adroddiad Terfynol Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol

Llywodraeth Cymru, 2019, Safon Ansawdd Tai Cymru: Adroddiad Ansawdd

Llywodraeth Cymru, 2019, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb i Adroddiad Sero Net y Pwyllgor Newid Hinsawdd

Llywodraeth Cymru, 2019, Datganiad Ystadegol Cyntaf: Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar 31 Mawrth 2019

Llywodraeth Cymru, 2020, Ymgynghoriad Cartrefi a Mannau Hardd 202

Llywodraeth Cymru, 2020, Adborth o grwpiau ffocws landlordiaid cymdeithasol (heb ei gyhoeddi)

Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Cartrefi Heddiw ar gyfer Yfory adroddiadau cam 2 a 3

Llywodraeth Cymru (Green et al), 2020, Datgarboneiddio stoc tai Cymru: o ymarfer i bolisi

Llywodraeth Cymru, 2021, Datgarboneiddio – SATC ac ORP (heb ei gyhoeddi)

Llywodraeth Cymru, 2021, Strategaeth Ddigidol i Gymru

Llywodraeth Cymru, 2021, Safon Ansawdd Tai Cymru: Arolwg Tenantiaid (Crynodeb)

Llywodraeth yr Alban, 2016, Report on the Common Housing Quality Standard Forum

Llywodraeth yr Alban, 2016, Scottish Housing Quality Standard: Guidance for Social Landlords

Llywodraeth yr Alban, 2019, Scottish House Condition Survey: 2019 Key Findings

Offeryn Statudol Cymru i Reoliadau Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rheoliadau (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 yn effeithiol o 12 Mawrth 2021

Olotuah, A. O., & Taiwo, A. A., 2015, Housing Strategies and Quality of Housing in Nigeria: what lessons from Wales. *Developing Country Studies*, 5 (16), 1-5.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, 2010, The Decent Homes Programme, Twenty-first Report of Session 2009-10

Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2019, Net Zero: The UK's contribution to stopping global warming

Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020, Y Chweched Gyllideb Garbon: Llwybr y Deyrnas Unedig at Sero Net.

Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2020, Adroddiad Cyngori: Y llwybr at Gymru Sero Net

Rodgers, S. E. et al, 2018, Emergency hospital admissions associated with a non-randomised housing intervention meeting national housing quality standards: a longitudinal data linkage study

Smith, B, Prifysgol Caerdydd, 2018, Social housing in Wales, Social Housing Policy Working Group, UK Collaborative Centre for Housing Evidence

Statistics New Zealand, 2015, Measuring housing quality: potential ways to improve data collection on housing quality in New Zealand

Swyddfa Archwilio Cymru, Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau – Safonau Ansawdd Tai Cymru – Ynys Môn, 2018; Cyngor Sir Powys, 2018; Cyngor Sir y Fflint, 2018

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2000, Quality and Choice: A Decent Home for All – The Housing Green Paper

TPAS Cymru a Groundwork Wales, 2008, Scope and Implementation of the WHQS Environmental Standard

TPAS Cymru a Tai Pawb, 2020, Floored – Provision of appropriate flooring in social housing

Trysorlys EM, 2020, Magneta Book, Central Government guidance on evaluation

Trysorlys EM, 2015, The Aqua Book

Twinch, E., 2011, Failing the Standard, article, Inside Housing magazine

Uned Ddata, 2004, Byw yng Nghymru, Arolwg 2004, Astudiaeth Ymchwil Adroddiad Technegol Arolwg Eiddo a Gynhaliwyd i'r Uned Ddata, Mawrth - Hydref 2004. Astudiaeth Rhif 7201 Archif UK Data

Welsh Housing Quality Standard and Social Housing Renewal, Social Justice and Regeneration Research Report SJRRR 4/05 - November 2005

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2021, Guidance: Decent Home Standard: Review

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2021, Table 119: stock of non-decent homes, England 2001-2020

Atodiad A:

Crynodeb o'r safonau tai cymdeithasol ar rent mewn awdurdodaethau cymharol

Safon	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Safon Anaddasrwydd Safon naw pwynt yng nghyswllt sefydlogrwydd strwythurol; dadfeiliad; lleithder; gwresogi, golau ac awyru; cyflenwad dŵr; paratoi a choginio bwyd; toiled; bath neu gawod a basn ymolchi; draeniad. (Yr Alban: Safon Goddefadwy)	Safon traws-ddaliadaeth statudol ar gyfer mesur ansawdd tai yng Nghymru hyd 2006. Disodlwyd gan Gyfradd Iechyd a Diogelwch Tai yn 2006.	Safon traws-ddaliadaeth statudol ar gyfer mesur ansawdd tai yn Lloegr hyd 2006. Disodlwyd gan Gyfradd Iechyd a Diogelwch Tai yn 2006.	Safon traws-ddaliadaeth statudol presennol ar gyfer mesur ansawdd tai yn yr Alban - safon ofynnol ar gyfer y gallu i fyw yno. Sail statudol ar gyfer Safon Goddefadwy: Deddf Tai (Yr Alban) 1969, a ddiweddarwyd gan Ddeddfau 1987, 2001 a 2006. Meini prawf ychwanegol ar gyfer gosodiadau trydanol ac inswleiddio thermal a ychwanegwyd gan Ddeddf 2006. Ystadegau diweddaraf (2019): 1.6% o'r holl stoc yn anaddas (1% o dai cymdeithasol).	Safon traws-ddaliadaeth statudol presennol ar gyfer mesur ansawdd tai yng Ngogledd Iwerddon - safon ofynnol ar gyfer y gallu i fyw yno. Sail statudol ar gyfer Gorchymyn Safon Addasrwydd – Tai (Gogledd Iwerddon), 1981 cyfredol a addaswyd gan Orchymyn Tai (Gogledd Iwerddon), 1992. Heb ei ddiweddarau ers hynny. Ystadegau diweddaraf (2016): 2.1% o'r holl stoc yn anaddas (<1% o dai cymdeithasol).

Safon	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Safon ansawdd tai allweddol ar gyfer tai cymdeithasol Safon Cartref Gweddus (Lloegr a Gogledd Iwerddon) Yn 2001 cyhoeddodd DTLR gyfarwyddyd manwl ar ddiffiniad o 'Gartref Gweddus'. Pedwar Maen Prawf: 1. Mae'n cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer tai; 2. Mae mewn cyflwr rhesymol; 3. Mae ynddo gyfleusterau a gwasanaethau rhesymol o fodern; 4. Mae'n cynnig moethusrwydd rhesymol o ran gwres. Safon Ansawdd Tai Cymru Safon Ansawdd Tai yr Alban	Safon Ansawdd Tai Cymru	Lansiwyd Cartrefi Gweddus (Decent Homes) yn 2000 trwy Bapur Gwyrdd y Llywodraeth: "Quality and Choice: A Decent Home for All". Roedd yn ymrwymo'r Llywodraeth i sicrhau bod "yr holl dai cymdeithasol o safon gweddus cyn pen 10 mlynedd". Yn 2006 disodlwyd maen prawf cyntaf y Safon Cartrefi Gweddus. Daeth HHSRS yn safon ofynnol yn hytrach na Safon Addasrwydd. Ystadegau diweddaraf: 2018: 18% o gyfanswm y stoc wedi methu cyrraedd y Safon Cartref Gweddus (12% o'r sector cymdeithasol).	Safon Ansawdd Tai yr Alban a gyflwynwyd yn 2004 fel y prif ddull o fesur ansawdd tai cymdeithasol. Y targed y cytunwyd arno oedd bod yn rhaid i bob landlord cymdeithasol sicrhau bod eu holl anheddau yn cyrraedd y Safon erbyn 2015. Mae Safon yr Alban yn cynnwys 55 o elfennau gwahanol wedi eu grwpio mewn 5 maen prawf ar lefel uwch: Safon Goddefadwy (A), Angen ei drwsio yn ddifrifol (B), Effeithlonrwydd Ynni (C), Cyfleusterau a Gwasanaethau Modern (D) ac Iach, Diogel a Saff (E). Safle yn 2002: Nid oedd 77% o dai cymdeithasol yn cyrraedd y Safon. Ystadegau diweddaraf (2019): 43% o gyfanswm y stoc wedi methu cyrraedd y Safon (41% o dai cymdeithasol)	Safon Cartrefi Gweddus wedi ei fabwysiadu yng Ngogledd Iwerddon yn 2004 - i 'hyrwyddo gwelliannau mesuradwy' yn stoc anheddau Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd â Lloegr - yr holl dai cymdeithasol i gyrraedd y Safon erbyn 2010. Ar y dechrau roedd y Safon oedd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn ei hanfod yr un peth â'r un ar gyfer Lloegr. Ond, newidiodd hyn yn 2006 pan wnaeth Lloegr gyfnewid y Safon Addasrwydd am y HHSRS fel y maen prawf cyntaf yn y Safon. Mae Gogledd Iwerddon wedi parhau i gadw'r Safon Addasrwydd fel y maen prawf cyntaf. Safle yn 2004: Nid oedd 27% o dai cymdeithasol yn cyrraedd y Safon Cartrefi Gweddus. Ystadegau diweddaraf (2016): 7.8% o gyfanswm y stoc wedi methu cyrraedd y Safon (3.1% o dai cymdeithasol)

Safon	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
System Farnu Iechyd a Diogelwch Tai Offeryn gwerthuso ar sail risg i helpu i ddynodi tai a diogelu rhag risgiau a pheryglon posibl i iechyd a diogelwch oddi wrth unrhyw ddiffygion a ddynodir yn yr anneddau. <i>Gofynion ffisiolegol:</i> yn cynnwys lleithder, awyru, tamprwydd a thyfiant llwydni, rhy oer, rhy boeth, asbestos, Carbon Monocsid. <i>Gofynion ffisiolegol:</i> gan gynnwys lle, gorlenwi, diogelwch, golau, a sŵn. <i>Diogeliad rhag heintiad:</i> gan gynnwys hylendid, carthffosiaeth, plâu, gwastraff a chyflenwad dŵr. <i>Diogeliad rhag damweiniau:</i> yn cynnwys codymau e.e. yn gysylltiedig â bath, grisiau, arwynebau gwastad, peryglon trydanol, tân, llosgiadau a sgaldiadau.	Sail statudol: <i>Deddf Tai 2004</i>. Yn weithredol ers 2006 yn dilyn cyhoeddi <i>The HH&SRS: Operating Guidance Regulations, (Deddf Tai 2004: Rhan 1)</i>	Sail statudol: <i>Deddf Tai 2004</i>. Yn weithredol ers 2006 yn dilyn cyhoeddi <i>The HH&SRS (England) Regulations, 2005</i>. Ystadegau diweddaraf: 2018: Roedd 11% o gyfanswm y stoc â pherygl Categori 1 HH&SRS (5% o'r sector cymdeithasol)	Ddim yn berthnasol yn yr Alban	Dim sail statudol. Ddim yn cael ei ddefnyddio yn uniongyrchol ar gyfer dibenion polisi ond data wedi ei gasglu gan Arolwg Cyflwr Tai Gogledd Iwerddon ers 2006 (fersiwn gychwynnol yn 2004). Ystadegau diweddaraf (2016): Roedd 9% o gyfanswm y stoc â pherygl Categori 1 HH&SRS (4.4% o'r sector cymdeithasol)

Safon	Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Y sefyllfa ddiweddaraf		Cyhoeddwyd adolygiad dau ran o'r Safon Cartrefi Gweddus yn Chwefror 2021 - Bydd Rhan 1 yn ceisio deall y ddadl dros newid, ac os caiff ei gwneud, bydd rhan 2 yn ystyried sut y dylid diffinio gweddustera gyda Safon Cartrefi Gweddus wedi ei ddiwygio tua 2022.	Mae'r pwyslais ar hyn o bryd yn yr Alban ar wella effeithlonrwydd ynni – wedi ei yrru gan y Safon Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Tai Cymdeithasol. Mae ail fersiwn y Safon yn cael ei lunio ar hyn o bryd.	Mae mabwysiadu HHSRS wedi cael ei ystyried ers 2010 fel sail ar gyfer Safon Ansawdd Tai newydd Gogledd Iwerddon.

Ffynonellau gwybodaeth:

Cymru – wedi ei gymryd o benodau 3 a 4 yr adroddiad

Lloegr

Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, 2006, Quality and Choice: A Decent Home for All, The HGreen Paper

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2008, Decent Home: Definition and guidance for implementation, Update.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, 2010, The Decent Homes Programme, Twenty-first Report of Session 2009–10

Ar gyfer yr adolygiad o Safonau Cartrefi Gweddus a gyhoeddwyd yn Chwefror 2021 gweler <https://www.gov.uk/guidance/decent-homes-standard-review>

Data o wefan MHCLG –Tabl 119 Dwelling Stock: stock of non-decent homes¹, England 2001-2020

Yr Alban

Llywodraeth yr Alban, 2019, Scottish House Condition Survey: 2019 Key Findings

Llywodraeth yr Alban, 2016, Report on the Common Housing Quality Standard Forum

Llywodraeth yr Alban, 2016, Scottish Housing Quality Standard: Guidance for Social Landlords

Gogledd Iwerddon

NIHE, 2016, Northern Ireland House Condition Survey, Main Report

Department for Communities Northern Ireland, 2004, Decent Homes Standard.